Plant a Phobl Ifanc

Côd ymarfer da i'w defnyddio gan blwyfi yr Eglwys yng Nghymru



CYNNWYS

Tudalen

1	Cyflwyniad	
2	Côd Ymarfer Da (Argymhellir gan "Safe from Harm" y Swyddfa Gartref)	
3-9	Canllawiau ar gyfer gweithredu'r Côd Ymarfer Da	
10-11	Rhifau ffôn defnyddiol	
12-13	Atodiad 1	Polisi Amddiffyn Plant y Plwyfi
14	Atodiad 2	Disgrifiad Swydd Cyd-lynydd Amddiffyn Plant y Plwyf
15	Atodiad 3	Ffurflen Ganiatâd Rhieni - Ymweliadau a Gweithgareddau
16	Atodiad 4	Disgrifiad Swydd Amlinellol a Datganiad i Weithwyr gyda Phlant a Phobl Ifanc
17-18	Atodiad 5	Ffurflen gais am waith gyda Phlant a Phobl Ifanc
19-20	Atodiad 6	Ffurflen Gais am Eirda
21-22	Swyddfa Cofnodion Troseddol – Polisi Diogelwch Datgeliadau (Darpariaethau Newydd 2004)	
23-25	Atodiad 7	Cofnodion Troseddol ac Archwiliadau gyda siart rediad
26-29	Atodiad 7A	Hygludedd Datgeliadau a Ffurflenni (Darpariaethau Newydd 2004)
30-33	Beth i'w wneud os derbynnir datgeliad amheus oddi wrth y Swyddfa Cofnodion Troseddol Atodiad 1 - Siart Rediad Atodiad 2 - Pobl a waherddir rhag gweithio gyda phlant. (Darpariaethau Newydd 2004)	
34	Recriwtio cyn-droseddwyr. (Darpariaethau Newydd 2004)	
35-36	Troseddwyr rhyw yng Nghymuned yr Eglwys a siart rediad. (Darpariaethau Newydd 2004)	
37	Atodiad 8	Cofrestr "Diogel rhag Niwed" y Plwyf
38-40	Atodiad 9	Canllawiau ar gyfer Ymdrin â Datgelu, Amau neu Ddarganfod Camdriniaeth gyda siart rediad
41	Ymdrin â honiadau yn erbyn Gweithwyr Yr Eglwys. (Darpariaethau Newydd 2004)	

Côd ymarfer da - 2002

CYFLWYNIAD

Mae Plant a Phobl Ifanc yn rhan bwysig iawn o gymuned yr Eglwys yng Nghymru, i'w parchu a'u hanwylo er eu mwyn eu hunain. Wythnos ar ôl wythnos fe fydd plant yn ymweld ag adeiladau'r eglwys i addoli ac i chwarae. Mae hyn yn bosibl yn bennaf drwy wirfoddolwyr ymroddedig sy'n rhoi eu hamser a'u doniau i wasanaeth yr Eglwys.

Nid yw llunio'r canllaw hwn ar ymarfer da am awgrymu fod y rheiny sy'n ymwneud â gwaith cyflogedig neu wirfoddol gyda phlant a phobl ifanc yr Eglwys o dan amheuaeth. Mae'r Eglwys yng Nghymru yn awyddus i ddarparu amgylchfyd diogel a hapus lle gall plant a phobl ifanc dyfu a datblygu yn eu hymrwymiad Cristnogol.

Wrth ymateb i awydd yr Eglwys yng Nghymru i ddarparu'r amgylchfyd diogel a hapus hwn ac mae llawer ohonoch chi eisoes wedi mabwysiadu datganiad polisi ac wrthi'n hyrwyddo ymarfer da. Lluniwyd y canllaw hwn i'ch cynorthwyo chi i hyrwyddo gweithdrefnau gwell ar gyfer gweithio gyda phlant a phobl ifanc yn yr Eglwys yng Nghymru.

Fe fydd gweithredu'r argymhellion sydd yn y canllaw ymarfer da hwn yn rhoi i blant a phobl ifanc y gofal a'r amddiffyn y maent yn eu haeddu. Bydd yn rhoi sicrwydd i rieni a amddiffynwyr fod eu plant yn ddiogel wrth gymryd rhan yng ngweithgareddau'r Eglwys. Fe ddylai helpu i ddiogelu staff a gwirfoddolwyr rhag honiadau ar gam a all godi o gamddealltwriaeth; fe ddylai hefyd leihau'r perygl i'r Eglwys gael ei hunan yn atebol mewn ymgyfreitha sy'n codi o amgylchiadau o gamdrin.

Mae'r canllaw ymarfer da yn caniatáu rhywfaint o hyblygrwydd a'r gobaith yw y gellir, lle bo polisïau a gweithdrefnau eisoes wedi'u datblygu, eu haddasu er mwyn adlewyrchu'r manylion sydd yn y canllaw ymarfer da.

"Gadewch i'r plant ddod ataf i a pheidiwch â'u rhwystro, oherwydd i rai fel hwy y mae teyrnas nefoedd yn perthyn." Mathew Pennod 19 adn 14.

Rydyn ni, eich Esgobion, yn cymeradwyo i chi y gweithdrefnau sydd yn y canllaw ymarfer da.



Côd ymarfer da - 2002

DIOGELU PLANT A PHOBL IFANC

Côd Ymarfer Da

Argymhellwyd gan "Safe from Harm" y Swyddfa Gartref

1. Gweithredwch bolisi'r Eglwys yng Nghymru ar ddiogelu lles plant a phobl ifanc.

2. Cynlluniwch waith yr esgobaeth/plwyf fel bod cyn lleied o sefyllfaoedd lle gallai camdrin plant a phobl ifanc ddigwydd.

3. Cyflwynwch system sy'n caniatáu i blant a phobl ifanc siarad â pherson annibynnol.

4. Gwnewch yn siwr fod y gweithdrefnau cytunedig i warchod plant a phobl ifanc yn berthnasol i'r holl staff cyflogedig a gwirfoddol.

5. Rhowch ddyletswyddau penodol i'r holl staff cyflogedig a gwirfoddol.

6. Defnyddiwch oruchwyliaeth staff a gwirfoddolwyr fel modd i warchod plant a phobl ifanc.

7. Dylech drin bob ymgeisydd am waith sy'n golygu cyswllt â phlant a phobl ifanc yn yr un modd.

8. Ceisiwch gael o leiaf un geirda, gorau i gyd gan berson sydd â phrofiad o waith cyflogedig neu wirfoddol yr ymgeisydd gyda phlant a phobl ifanc, os yw wedi gwneud hynny.

9. Trafodwch holl brofiad yr ymgeiswyr o weithio neu gyswllt gyda phlant a phobl ifanc mewn cyfweliad cyn penodi.

10. Gwnewch ymholiadau i weld a oes gan ymgeisydd unrhyw gollfarn am droseddau yn erbyn plant neu bobl ifanc.

11. Gwnewch benodiadau cyflogedig a gwirfoddol yn amodol ar gwblhau cyfnod prawf yn llwyddiannus.

12. Cyhoeddwch ganllawiau ar sut i ymdrin â datgelu, amau neu ganfod camdrin.

13. Rhowch hyfforddiant i staff cyflogedig a gwirfoddol, eu cyd-lynwyr neu oruchwylwyr a llunwyr polisi, ar rwystro camdrin plant.

Côd ymarfer da - 2002

CANLLAWIAU

ARGYMHELLIAD 1

LLUNIWCH BOLISI

Mae rheolaeth dda yn gofyn fod pawb yn gwybod yn union beth maent yn anelu ato ac mae'n **RHAID** i bob esgobaeth a phlwyf ledled yr Eglwys yng Nghymru lunio datganiad polisi. Fe ddylai'r datganiad polisi nodi eich polisi am ddiogelu lles plant a phobl ifanc sy'n gysylltiedig â bywyd a gweithgaredd y gymuned yn yr Eglwys yng Nghymru.

Bydd y polisi yn:

- berthnasol i bob plentyn a pherson ifanc o dan 18 oed
- nodi'n eglur ddyletswydd pawb sy'n ymwneud â hwy er mwyn rhwystro camdriniaeth corf forol, rhywiol neu feddyliol bob plentyn a pherson ifanc y byddant mewn cysylltiad â hwy
- cynnwys y rhwymedigaethau allweddol a ganlyn
- gweithredu'r Côd Ymarfer Da

Ein Rhwymedigaethau Ni i Blant a Phobl Ifanc

Mae yna rwymedigaeth i sicrhau fod yr egwyddorion canlynol yn cael eu cynnal bob amser:

1. "Gadewch i'r plant ddod ataf i a pheidiwch â'u rhwystro; oherwydd i rai fel hwy y mae teyrnas nefoedd yn perthyn" (Mt 19:14). Ymhlyg yng ngeiriau Iesu mae yna gydnabyddiaeth fod gan blant a phobl ifanc statws unigryw. Felly mae'n rhaid eu parchu fel pobl drwy eu hawl eu hunain a'u amddiffyn yn arbennig am eu bod yn hawdd eu brifo.

2. Mae'r Eglwys yng Nghymru yn derbyn ac yn pwysleisio egwyddor y Ddeddf Plant 1989 mai **lles y plentyn sydd bennaf bob amser.**

3. Rhaid i'r Eglwys a'i gweithwyr, yn ordeiniedig neu'n lleyg, p'un ai mewn gwaith cyflogedig neu wirfoddol, ymddwyn yn gyfrifol tuag at blant a phobl ifanc a gydag integriti. Rhaid diogelu eu sefyllfa o ymddiriedaeth. Ni ddylid manteisio ar y rheiny yn eu gofal.

4. Ni chaiff unrhyw ymelwa ar y berthynas hon o ymddiried, at ddibenion hunanfoddhad, ei oddef. Rhaid cynnal y safonau uchaf o ofal dan bob amgylchiadau, fel gofal bugeiliol, cynghori, addoliad, addysg ac adloniant.

5. Caiff unrhyw honiadau o gamdrin neu berygl o niwed i blant a phobl ifanc eu trin yn ddifrifol.

Ein Rhwymedigaethau Ni i Bersonau mewn Cysylltiad â Phlant a Phobl Ifanc

Mae yna hefyd rwymedigaeth i sicrhau fod y rheiny yn yr Eglwys sydd â chyfrifoldeb dros blant a phobl ifanc, neu sy'n dod i gysylltiad â hwy, yn ymwybodol o'r gweithdrefnau a'r arferion y mae'r Eglwys yng Nghymru yn eu pennu i'w defnyddio yn yr esgobaethau a'r plwyfi. Fe fydd hyn yn golygu addysg a hyfforddiant priodol.

1. Bydd yr Eglwys yng Nghymru yn cyd-weithio'n llawn gyda'r cyrff statudol a rhai gwirfoddol eraill.

2. Fe ofynnir i ymgeiswyr am y weinidogaeth a gweinidogion lleyg trwyddedig, yn ogystal â chlerigwyr a gweinidogion lleyg sy'n dechrau mewn swyddi newydd, i ddatgan a ydynt erioed wedi bod yn destun achos troseddol neu sifil ac a ydynt erioed wedi peri niwed i blant neu bobl ifanc neu eu rhoi mewn perygl. Gofynnir iddynt hefyd am ganiatâd i wneud archwiliad y Swyddfa Cofnodion Troseddol.

3. Fe ofynnir i staff cyflogedig a allai fod mewn cysylltiad â phlant neu bobl ifanc, cyn cadarnhau unrhyw benodiad, a ydynt erioed wedi bod yn destun achos troseddol neu sifil ac a ydynt eri oed wedi peri niwed i blant neu bobl ifanc neu eu rhoi mewn perygl. Gofynnir iddynt hefyd am ganiatâd i wneud archwiliad y Swyddfa Cofnodion Troseddol.

4. Caiff yr holl wirfoddolwyr sy'n debyg o ddod i gysylltiad â phlant eu recriwtio yn ofalus a'u hyfforddi'n briodol. Fe ofynnir iddynt hwy hefyd i ddatgan a ydynt erioed wedi bod yn destun achos troseddol neu sifil ac a ydynt erioed wedi peri niwed i blant neu bobl ifanc neu eu rhoi mewn perygl. Gofynnir iddynt hefyd am ganiatâd i wneud archwiliad y Swyddfa Cofnodion Troseddol.

Ceir enghraifft o'r Datganiad Polisi Amddiffyn Plant i'w ddefnyddio yn y Plwyfi yn Atodiad 1.

Rhoddir anogaeth i'r Cyngor Plwyf Eglwysi (CPE) i sicrhau fod gweithredu polisi a'i nodau ac amcanion yn gyfrifoldeb i'r holl oedolion sy'n aelodau yn yr eglwys ac nid yn unig i'r rheiny sy'n gweithio'n uniongyrchol gyda phlant a phobl ifanc.

ARGYMHELLIAD 2

CYNLLUNIWCH Y GWAITH

Cyd-lynydd Amddiffyn Plant

Er mwyn sicrhau fod y Côd Ymarfer Da yn cael ei weithredu'n iawn argymhellir fod bob CPE yn penodi person i weithredu fel Cyd-lynydd Amddiffyn Plant. Ceir Disgrifiad Swydd enghreifftiol yn Atodiad 2. Dylid rhoi enw'r Cyd-lynydd Amddiffyn Plant i'r aelodau presennol, aelodau newydd ac i bawb sy'n gweithio gyda phlant yn y plwyf. Mae swydd y Cyd-lynydd Plant yn un cyfrifol ac fe ddylid ei gyflawni gan rywun cymwys, aeddfed a phrofiadol sy'n ennyn parch ac ymddiried eraill.

Trefnu Addoliad a Gweithgareddau i Blant a Phobl Ifanc

Mae gan bob CPE gyfrifoldeb dros sicrhau:-

- fod gan bob corff o fewn awdurdodaeth y Plwyf ddigon o staff a rheolwyr da.
- fod gwaith bob corff o'r fath wedi ei gynllunio fel bod cyn lleied ag sy'n bosibl o sefyllfaoedd lle gallai plant a phobl ifanc gael eu camdrin.

Bydd dilyn rhai canllawiau syml yn lleihau'r perygl o niwed i blant a phobl ifanc ac yn diogelu oedolion sy'n gofalu amdanynt:-

Canllawiau syml ar gyfer gweithio gyda phlant a phobl ifanc

1 Trefnwch weithgareddau bob amser ac ymhob ffordd bosibl i roi sicrwydd i rieni, plant a phobl ifanc ac i warchod gweithwyr, cyflogedig a gwirfoddol, rhag honiadau anghyfiawn.
2. Cyn belled â phosibl ni ddylid gadael oedolyn ar ei ben ei hun gyda phlentyn neu berson ifanc mewn lle neu ystafell na ellir ei weld yn hawdd gan eraill.
3. Ni ddylai gweithwyr gyda phlant a phobl ifanc drefnu i gwrdd â phlentyn na pherson ifanc y tu allan i adeiladau'r eglwys ac eithrio yng ngŵydd rhiant neu oedolyn arall.
4. Rhowch ystyriaeth ofalus i ddefnydd yr adeiladau a'r mynediad at adeiladau e.e., oes digon o olau?
5. Ni ddylid mynd â grwpiau o blant neu bobl ifanc oddi ar y safle heb lai na dau oedolyn.
6. Gwnewch yn siwr bob amser fod yr yswiriant atebolrwydd cyhoeddus yn ddigonol, yn arbennig pan fydd grŵp yn mynd oddi ar y safle. Mae polisi bloc EIG yn darparu yswiriant. EIG 0845 777 3322.
7. Dylid cofnodi unrhyw ddigwyddiadau sy'n ymwneud ag ymddygiad plant a phobl ifanc.
8. Dylid bob amser gael ffurflenni caniatâd wedi eu harwyddo gan riant neu warchodwr os bydd gweithgaredd yn digwydd i ffwrdd o'r man cyfarfod arferol. Ceir ffurflen enghreifftiol yn Atodiad 3. DS Yn achos gweithgareddau antur rhaid cwrdd â gofynion arbennig Deddf Canolfannau Gweithgareddau (Diogelwch Pobl Ifanc) 1995 a Rheoliadau Trwyddedu Antur 1996.
9. Os bydd plant a phobl ifanc yn cael eu cludo mewn car neu fws mini trefnwch fod mwy nag un oedolyn yn y cerbyd hefyd.
10 Ni ddylai ymwelwyr achlysurol gael mynediad at weithgareddau grŵp o blant a phobl ifanc ar unrhyw gyfrif heb bresenoldeb oedolyn sydd ag awdurdod i fod yn gyfrifol am y grŵp.
11 Rhaid bod offer cymorth cyntaf ar gael. Rhaid cofnodi damweiniau a rhoi gwybod i rieni neu warchodwyr. Dylai bob gweithiwr wybod ble mae'r ffôn agosaf.

ARGYMHELLIAD 3

SIARAD Â PHERSON ANNIBYNNOL – PLANT MEWN LLEOLIAD PRESWYL

Mae'r Côd Ymarfer yn argymell penodi Person Annibynnol y gall plant neu bobl ifanc gysylltu ag ef os byddant am gyfle i siarad am ddigwyddiad yn eu grŵp, yn arbennig os credant eu bod wedi eu camdrin yn gorfforol, yn rhywiol neu'n feddyliol gan oedolyn neu berson ifanc arall. Rhaid cyfeirio unrhyw amheuaeth ynghylch digwyddiadau posibl o gamdrin at yr asiantaeth briodol fel y nodir yn Atodiad 9.

Os gallwch chi benodi person annibynnol o fewn eich cynulleidfa chi eich hunan fe ddylai'r person hwnnw fod yn:-

1. Rhywun gwahanol i'r Cyd-lynydd Amddiffyn Plant
2. Annibynnol ar weithgareddau'r plant neu bobl ifanc
3. Rhywun y gall y plant a'r bobl ifanc ymwneud ag ef/hi
4. Wedi ei hyfforddi'n llawn i ymdrin â'r math hwn o waith.

Os nad yw hwn yn opsiwn fe ddylech gysylltu â'r Adran Gwasanaethau Cymdeithasol i weld os oes yna rywun ar gael i'r plant a phobl ifanc siarad ag ef/hi.

Os na allwch chi benodi person annibynnol, un ffordd arall o weithredu'r Côd Ymarfer Da yw rhoi cyhoeddusrwydd i rif ffôn cenedlaethol Childline 0800 1111. Mae posteri sy'n hysbysebu'r rhif a thaflenni esboniadol ar gael oddi wrth swyddfa leol Childline 01792 480111.

Dylech ystyried ffyrdd o roi gwybod i blant a phobl ifanc fod Person Annibynnol ar gael iddynt i siarad ag ef/hi. Gellir gwneud hyn er enghraifft drwy hysbysebu'r enw, cyfeiriad a rhif ffôn ar fwrdd hysbysu lle gall plant a phobl ifanc ei weld ynghyd â neges anfygythiol fel "Eisiau rhywun i siarad ag ef/hi?"

Efallai byddai'n briodol hefyd i drefnu ymweld â'r grŵp i drafod materion ynghylch camdrin plant a hawliau plant.

ARGYMHELLIAD 4

GWEITHDREFNAU I FOD YN BERTHNASOL I'R HOLL STAFF CYFLOGEDIG A GWIRFODDOL

Gellir lleihau'r cyfle i gamdrin plant a phobl ifanc drwy reoli a gweithredu arferion da o ran y corff a'r adeiladau a ddefnyddir. Drwy reolaeth dda ar weithwyr cyflogedig a gwirfoddol yn bennaf gallwn fod yn fwyaf effeithiol wrth warchod plant a phobl ifanc.

Nid oes unrhyw ffordd arbennig o adnabod darpar gamdrinwyr. Ni ddylai'r ffaith mai bach iawn yw nifer y digwyddiadau o gamdrin plant yn yr Eglwys arwain neb at ymdeimlad ofer o ddiogelwch. Yn wir yn ystod y blynyddoedd diwethaf mae'r wasg wedi dangos nad yw'r eglwysi yn gyffredinol yn rhydd rhag digwyddiadau o'r fath.

Dyma paham y mae'n **RHAID** i'r gweithdrefnau a argymhellir yn achos gweithwyr cyflogedig a gwirfoddol fod yn berthnasol i **BAWB** heb ystyried eu proffesiwn, statws, rhyw, oed ayb.

ARGYMHELLIAD 5

RHOWCH DDYLETSWYDDAU PENODOL I STAFF CYFLOGEDIG A GWIRFODDOL

Mae cydnabyddiaeth fod camdrin plant a phobl ifanc yn fwy tebygol o ddigwydd pan fydd hi'n annhebygol y caiff y camdrin ei ddarganfod. Gellir cuddio camdriniaeth yn fwy hawdd pan fydd dryswch ymysg oedolion ynghylch eu dyletswyddau, cyfrifoldebau ac atebolrwydd.

Felly fe ddylech sicrhau fod gan bob gweithiwr cyflogedig a gwirfoddol ddisgrifiad swydd. Fe ddylai hwn gynnwys:-

- disgrifiad eglur o'u cyfrifoldeb dros warchod plant a phobl ifanc
- y person y maent yn atebol iddo/iddi
- cyfrifoldeb dros oruchwylio eraill fe bo angen
- disgrifiad o'r gwaith y byddant yn ei gyflawni gyda phlant a phobl ifanc gan gyfeirio at unrhyw ganllawiau a fabwysiadwyd gan y CPE er mwyn diogelu lles plant a phobl ifanc
- y ddyletswydd i rwystro camdrin bob plentyn a pherson ifanc
- cyfeiriad at y drefn i'w dilyn os caiff camdriniaeth ei darganfod neu ei datgelu.

Ceir disgrifiad swydd enghreifftiol yn Atodiad 4. Argymhellir y dylid rhoi disgrifiad swydd i'r gweithwyr cyflogedig a gwirfoddol presennol hefyd yn ogystal ag i weithwyr cyflogedig neu wirfoddol newydd pan gânt eu penodi i'w swyddi newydd.

ARGYMHELLIAD 6

GORUCHWYLIAETH

Fe ddylai fod cyfleoedd rheolaidd i'r rheiny mewn swyddi goruchwylio i gwrdd â phob gweithiwr cyflogedig a gwirfoddol er mwyn gwneud arolwg a chynllunio eu gwaith, yn ogystal â chyfleoedd i wylio'r rheiny y maent yn gyfrifol amdanynt wrth iddynt weithio gyda'r plant a phobl ifanc. Bydd hyn yn helpu wrth ddatblygu rhaglenni hyfforddiant i weithwyr a hefyd wrth roi ymateb positif ynghylch agweddau ymarferol ar yr hyn a wnânt.

Dylai'r goruchwylwyr fanteisio ar y cyfleoedd hyn i ofyn cwestiynau am eu perthynas weithiol a phersonol gyda'r plant a phobl ifanc, ac, i drafod amgylchiadau lle bydd plentyn neu berson ifanc yn ddirybudd wedi peidio â chymryd rhan mewn gweithgareddau.

Os bydd goruchwyliwr yn canfod pryder ynghylch diogelwch lles plentyn neu berson ifanc, fe ddylai'r goruchwyliwr osgoi gweithredu'n fyrbwyll neu feirniadol a cheisio cymorth y Cyd-lynydd Amddiffyn Plant y Plwyf wrth drafod y mater ymhellach.

ARGYMHELLIAD 7 & 9

TRIN GWEITHWYR CYFLOGEDIG A GWIRFODDOL YN YR UN MODD YMCHWILIO I BROFIAD BOB YMGEISYDD YN GYNNWYS CYFWELIAD

Cynghorir y CPE i drin pawb sy'n awyddus i weithio gyda phlant neu bobl ifanc fel ymgeiswyr am swydd. Bydd hyn yn golygu casglu gwybodaeth am y person.

O ran swyddi cyflogedig, bydd hyn yn ffurfio rhan o'r broses recriwtio gan gynnwys llenwi ffurflen gais, cael geirda, archwiliadau meddygol ac archwiliadau cofnodion troseddol.

O ran gweithwyr gwirfoddol, gall yr adegau o ymwneud â gweithgareddau plant a phobl ifanc amrywio cryn dipyn. Gall olygu cysylltiad rheolaidd, bob wythnos, a gall fod yn gymorth achlysurol neu ar sail rota. Fodd bynnag rhaid eu trin yn yr un modd â gweithwyr cyflogedig. Felly rhaid gwneud archwiliadau o ran geirda a chofnodion troseddol. Ceir y ffurflen briodol ar gyfer cael cofnodion gan ddarpar weithwyr gwirfoddol yn Atodiad 5.

Mae'n arfer gyffredin i gyfweld ymgeiswyr am swyddi cyflogedig. Argymhellir y dylid gweithredu arfer debyg os llai ffurfiol o ran dewis gwirfoddolwyr. Prif ddiben y cyfweliad fuasai trafod profiad y darpar wirfoddolwr o weithio gyda phlant a/neu bobl ifanc. Dylai arddull y cyfweliad fod yn sgyrsiol, yn gartrefol a dylid ei gynnal mewn ysbryd o gynhwysedd. Ni ddylid anghofio pwysigrwydd a difrifwch yr hyn rydych chi'n geisio'i wneud. Yn achos cynorthwywyr achlysurol, gellir cyfuno'r cyfweliad gyda llenwi ffurflen sy'n debyg i'r un a ddangosir yn Atodiad 5.

Dylid cael y wybodaeth sydd ei angen ar y ffurflen trwy gyfweliad ffurfiol. Rhaid i'r gwirfoddolwr arwyddo'r ffurflen. Efallai fod hyn yn ymddangos yn broses feichus ond caiff ei argymell fel arfer da er mwyn sicrhau cyn belled â phosibl les y plant a phobl ifanc bob amser. Bydd y rhan fwyaf o oedolion aeddfed yn barod i dderbyn fod angen trefniadau o'r fath ac yn cyd-weithio mewn modd pendant iawn.

Os oes unrhyw amheuaeth ynghylch addasrwydd y person fe ddylid ymchwilio ymhellach drwy ofyn cwestiynau mwy manwl ac o bosibl ofyn cwestiynau penodol i ganolwyr y person.

ARGYMHELLIAD 8

GEIRDA

Cyn derbyn gwirfoddolwyr rhaid cael o leiaf un geirda am addasrwydd y gwirfoddolwr i weithio gyda phlant a phobl ifanc. Ceir ffurflen gais enghreifftiol am eirda cyfrinachol yn Atodiad 6.

ARGYMHELLIAD 10

TROSEDDAU

Mae'n rhaid i'r Eglwys gymryd camau i sicrhau fod plant a phobl ifanc yn eu cymuned yn cael eu amddiffyn rhag pobl â chofnod o gamdrin plant. Bydd archwiliadau cofnodion troseddol yn sicrhau fod camdrinwyr euog yn cael eu hadnabod. Mae hwn yn gam pwysig iawn yn y broses ar gyfer dethol pobl "diogel" i weithio gyda phlant a phobl ifanc ac i ddiogelu rhag camdrinwyr euog sy'n cyfaddef eu hunain eu bod yn chwilio o hyd am gyfleoedd newydd i gamdrin. Fodd bynnag, dim ond dechrau'r diogelu rhag darpar gamdrinwyr yw cael cofnodion troseddol.

Mae bob sefyllfa sy'n ymwneud â gwaith gyda phlant a phobl ifanc yn eithriad i Ddeddf Adfer Troseddwyr 1974. Mae hyn yn golygu fod yn rhaid datgelu bob collfarn sy'n berthnasol i blant a phobl ifanc. Gofynnir am wybodaeth ynghylch collfarnau troseddol eraill oherwydd gall y rhain fod yn berthnasol i addasrwydd yr ymgeisydd.

Felly rhaid i bob penodiad o'r fath a'r bobl sydd eisoes mewn swyddi fod yn destun archwiliad cofnodion troseddol. Nodir y drefn ar gyfer gwneud cais am archwiliad yn Atodiad 7.

NI DDYLID CANIATÁU i unrhyw weithiwr newydd cyflogedig a gwirfoddol i weithio heb oruchwyliaeth gyda phlant a phobl ifanc hyd nes bod y gweithdrefnau archwilio cofnodion troseddol wedi eu cwblhau a'r plwyf wedi cael gwybod fod y person wedi ei glirio i weithio gyda phlant a phobl ifanc.

Bydd yn rhaid i'r gweithwyr cyflogedig a gwirfoddol presennol fynd trwy weithdrefnau archwiliadau cofnodion troseddol pan ddônt i rym. Ceir y drefn newydd yn Atodiad 7.

ARGYMHELLIAD 11

CYFNODAU PRAWF

Argymhellir y dylai pawb sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc weithio cyfnod prawf o 3 mis. Ni ddylid tybio fod person wedi llwyddo'n otomatig i gwblhau cyfnod prawf dim ond drwy fod yn y swydd hyd at ddyddiad yr arolwg. Rhaid i'r goruchwyliwr fod yn hollol sicr ar ddiwedd y cyfnod prawf ynghylch gallu'r person i wneud y gwaith a'i ymroddiad at rwystro camdrin plant a phobl ifanc cyn cadarnhau cwblhad llwyddiannus y cyfnod prawf.

ARGYMHELLIAD 13

HYFFORDDIANT

Dylid darparu'r hyfforddiant priodol a chodi ymwybyddiaeth y gweithwyr cyflogedig a gwirfoddol hynny ac eraill yng nghymuned yr eglwys sy'n gweithio gyda neu sydd mewn cysylltiad â phlant a phobl ifanc. Nid yw'n ddigon i roi canllawiau i weithwyr heb roi'r sgiliau a'r wybodaeth sy'n ofynnol iddynt i wneud y gwaith rydych chi'n gofyn ganddynt. Gall hyfforddiant o'r fath gynnwys:

- cynllunio gweithgareddau mewn modd sy'n rhwystro camdrin
- dod yn Berson Annibynnol y gall plant a phobl ifanc siarad ag ef/hi
- defnyddio goruchwyliaeth fel modd i warchod plant a phobl ifanc
- cyfweld ymgeiswyr am swyddi sy'n cynnwys gwaith gyda phlant a phobl ifanc
- trafod camdrin a ddatgelwyd neu a amheuwyd
- sgiliau cynghori

Bydd Swyddog Amddiffyn Plant yr Esgobaeth yn gallu rhoi cyngor ar gyfleoedd hyfforddiant.

Cofnodion Plwyf

Dylai'r CPE gadw cofrestr o bobl sydd wedi gwneud cais i weithio gyda phlant a phobl ifanc. Ceir cofrestr enghreifftiol yn Atodiad 8.

ARGYMHELLIAD 12

CANLLAWIAU AM YMDRIN Â DATGELU, AMAU NEU GANFOD CAMDRIN

Fe all gweithwyr cyflogedig a gwirfoddol mewn cyrff eglwysig ennill ymddiried plant a phobl ifanc i'r graddau mai atynt hwy y bydd plant yn troi os byddant am siarad am eu profiadau. Fe ddylai bob gweithiwr wybod sut i drafod sefyllfa o'r fath.

Ceir y canllawiau a argymhellir ar gyfer trafod sefyllfaoedd o'r fath yn Atodiad 9. Dylid rhoi'r rhain i bob gweithiwr.

Os daw amheuon ynghylch camdrin corfforol, rhywiol neu feddyliol posibl at sylw Cyd - lynydd Amddiffyn Plant y Plwyf dylid gweithredu yn ôl yr argymhelliad yn Atodiad 9.

Mae'n debygol iawn y bydd cryn ddiddordeb gan y cyfryngau os bydd unrhyw fater ynghylch amddiffyn plant yn codi yn eich plwyf. Ni ddylech geisio ymdrin ag unrhyw ymholiadau gan y wasg. Dylech gyfeirio bob ymholiad gan y wasg at Swyddog Cyfathrebu yr Eglwys yng Nghymru a fydd yr unig gyswllt i'r wasg ynglŷn â'r mater.

Gallwch gysylltu â'r Swyddog Cyfathrebu, sef **Siôn Brynach** ar hyn o bryd, yn:
Cyfeiriad:
39 Heol y Gadeirlan
Caerdydd
CF11 9XF

Rhif ffôn:
029 2034 8208 neu 029 2034 8200
Rhif ffacs:
029 2038 7835
E-bost:
Sionbrynach@churchinwales.org.uk

Côd ymarfer da - 2002

Rhifau ffôn defnyddiol

Childline

Childline	0800 1111
Childline Cymru/Wales Llawr 9 Tŷ Alexandra Heol Alexandra ABERTAWE SA1 5ED	01792 480111
Childline Cymru/Wales Ysbyty Brenhinol Alexandra Marine Drive RHYL LL18 3AS	01745 345111

Heddlu

Heddlu Dyfed-Powys	01267 222020
Heddlu Gwent	01633 642200
Heddlu'r Gogledd	01492 517171
Heddlu'r De	01656 869366

Swyddogion Amddiffyn Plant yr Esgobaethau

Llanelwy	Y Parchedig Christine R Owen 01758 720494
Bangor	Y Parchedig Emyr Parr 0
Tyddewi	Mrs Diane Morley-Jones 01554 890458
Llandaf	Y Parchedig Sally Davies 029 2075 7190
Mynwy	Mrs Sue Collingbourne 01633 412742
Abertawe ac Aberhonddu	Y Parchedig Robert Jones 01792 540530

Gwasanaethau Cymdeithasol

Dinas a Sir Abertawe	01792 636000
Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent	01495 350555
Cyngor Bro Morgannwg	01446 700111
Dinas a Sir Caerdydd	029 20872000
Cyngor Sir Caerfyrddin	01267 234567
Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili	01443 864674
Cyngor Bwrdeistref Sirol Casnewydd	01633 232717
Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell Nedd Port Talbot	01639 763279
Cyngor Sir Ceredigion	01545 572600
Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy	01492 574060
Cyngor Sir Ddinbych	01284 706655
Cyngor Sir Y Fflint	01352 702555
Cyngor Gwynedd	01286 672255
Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful	01685 724680
Cyngor Sir Mynwy	01633 644644
Cyngor Sir Penfro	01437 775831
Cyngor Bwrdeistref Sirol Penybont ar Ogwr	01656 642211
Cyngor Sir Powys	01597 827672
Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf	01443 424141
Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen	01633 648615
Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam	01978 292000
Cyngor Bwrdeistref Sirol Ynys Môn	01248 752703

ATODIAD 1

POLISI AMDDIFFYN PLANT I'R PLWYFI

PLWYF:

DYDDIAD:

Sefydlodd yr Eglwys yng Nghymru ei rhwymedigaethau i'r plentyn yn 1995 (lacháu Eneidiau).

EIN RHWYMEDIGAETHAU I BLANT A PHOBL IFANC

Mae rhwymedigaeth i sicrhau fod yr egwyddorion canlynol yn cael eu cynnal bob amser:

1. "Gadewch i'r plant ddod ataf i a pheidiwch â'u rhwystro; oherwydd i rai fel hwy y mae teyrnas nefoedd yn perthyn (Mt. 19:14). Ymhlyg yng ngeiriau Iesu mae yna gydnabyddiaeth fod gan blant a phobl ifanc statws unigryw. Felly mae'n rhaid eu parchu fel pobl drwy eu hawl eu hunain a'u amddiffyn yn arbennig am eu bod yn hawdd eu brifo.

2. Mae'r Eglwys yng Nghymru yn derbyn ac yn pwysleisio egwyddor y Ddeddf Plant 1989 mai **lles y plentyn sydd bennaf bob amser.**

3. Rhaid i'r Eglwys yng Nghymru a'i gweithwyr, ordeiniedig neu'n lleyg, p'un ai mewn gwaith cyflogedig neu wirfoddol, ymddwyn yn gyfrifol tuag at blant a phobl ifanc a gydag integriti. Rhaid diogelu eu sefyllfa o ymddiriedaeth. Ni ddylid manteisio ar y rheiny yn eu gofal.

4. Ni chaiff unrhyw ymelwa ar y berthynas hon o ymddiried, at ddibenion hunanfoddhad, ei oddef. Rhaid cynnal y safonau uchaf o ofal dan bob amgylchiadau, fel gofal bugeiliol, cynghori, addoliad, addysg ac adloniant.

5. Caiff unrhyw honiadau o gamdrin neu berygl o niwed i blant a phobl ifanc eu trin yn ddifrifol.

Mae Plwyf …… yn Blwyf "Safe from Harm" ac yn cytuno i weithio o fewn yr argymhellion a nodir yng nghyhoeddiad y Swyddfa Gartref 1993 o'r enw "Safe from Harm" a'r Côd Ymarfer Da a'r Canllawiau a dderbyniwyd ac a argymhellwyd gan yr Eglwys yng Nghymru.

PWRPAS

Darparu amgylchfyd diogel i'n gwaith yn y Plwyf gyda phlant a phobl ifanc.

CANLLAWIAU SYML AR GYFER GWEITHIO GYDA PHLANT A PHOBL IFANC

1. Trefnwch weithgareddau bob amser ac ymhob ffordd bosibl i roi sicrwydd i rieni, plant a phobl ifanc ac i warchod gweithwyr, cyflogedig a gwirfoddol, rhag honiadau anghyfiawn.

2. Cyn belled â phosibl ni ddylid gadael oedolyn ar ei ben ei hun gyda phlentyn neu berson ifanc mewn lle neu ystafell na ellir ei weld yn hawdd gan eraill.

3. Ni ddylai gweithwyr gyda phlant a phobl ifanc drefnu i gwrdd â phlentyn na pherson ifanc y tu

allan i adeiladau'r eglwys ac eithrio yng ngŵydd rhiant neu oedolyn arall.

4. Rhowch ystyriaeth ofalus i ddefnydd yr adeiladau a'r mynediad at adeiladau e.e., oes digon o olau?

5. Ni ddylid mynd â grwpiau o blant neu bobl ifanc oddi ar y safle heb lai na dau oedolyn.

6. Gwnewch yn siwr bob amser fod yr yswiriant atebolrwydd cyhoeddus yn ddigonol, yn arbennig pan fydd grŵp yn mynd oddi ar y safle.

7. Dylid bob amser gael ffurflenni caniatâd wedi eu harwyddo gan riant neu warchodwr os bydd gweithgaredd yn digwydd i ffwrdd o'r man cyfarfod arferol. Ceir ffurflen enghreifftiol yn Atodiad 3. DS Yn achos gweithgareddau antur rhaid cwrdd â gofynion arbennig Deddf Canolfannau Gweithgareddau (Diogelwch Pobl Ifanc) 1995 a Rheoliadau Trwyddedu Antur 1996.

8. Os bydd plant a phobl ifanc yn cael eu cludo mewn car neu fws mini trefnwch fod mwy nag un oedolyn yn y cerbyd hefyd.

9. Ni ddylai ymwelwyr achlysurol gael mynediad at weithgareddau grŵp o blant a phobl ifanc ar unrhyw gyfrif heb bresenoldeb oedolyn sydd ag awdurdod i fod yn gyfrifol am y grŵp.

10. Rhaid bod offer cymorth cyntaf ar gael. Rhaid cofnodi damweiniau a rhoi gwybod i rieni neu warchodwyr. Dylai bob gweithiwr wybod ble mae'r ffôn agosaf.

ARWYDDWYD AR RAN Y CPE. ……..

SWYDD…… DYDDIAD …….

ATODIAD 2

DISGRIFIAD SWYDD

Teitl y Swydd: Cyd-lynydd Amddiffyn Plant y Plwyf

Yn atebol i: .....

Cyd-destun: Cyfrifol am gynghori, a monitro Polisi Amddiffyn Plant y Plwyf

Pwrpas: Hwyluso a hyrwyddo lledaeniad gwybodaeth er amddiffyn plant a phobl ifanc rhag camdriniaeth.

Rhoi cyngor am gyfleoedd hyfforddiant i bawb sy'n gweithio'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol gyda phlant a phobl ifanc.

Hwyluso'r gweithdrefnau gwirio a fydd yn ofynnol o ran darpar weithwyr gwirfoddol.

Bod ar gael i arweinwyr ac oedolion eraill sy'n gysylltiedig â'r gynulleidfa a fydd am fynegi pryderon ynghylch personau neu weithdrefnau.

Monitro ar ran y CPE weithrediad parhaus y Côd Ymarfer Da gan bob grŵp neu gorff o dan awdurdodaeth y CPE.

Derbyn adroddiadau am unrhyw gamdrin plant neu bobl ifanc yn gorfforol, rhy wiol neu'n feddyliol a bod yn gyfrifol am gysylltu â'r heddlu neu awdurdodau eraill mewn unrhyw weithredu pellach.

Gwaith a Chyfrifoldebau

1. Cynorthwyo'r clerigwyr a'r CPE i weithredu polisi amddiffyn plant y plwyf.

2. Sicrhau fod y rheiny sy'n cyflawni gweinidogaeth gyda phlant a phobl ifanc yn y plwyf yn gwybod am bolisi'r plwyf ac yn gallu gweld y Côd Ymarfer Da a'i Ganllawiau.

3. Sicrhau fod y rheiny a ddylai wneud hynny wedi llenwi ffurflenni CPP/1 a'u dychwelyd at y periglor.

4. Cadw rhestr ar gyfer cofnodion y plwyf a Chofnodion yr Archddiaconiaid o bawb y mae eu gwaith yn y plwyf yn eu rhoi mewn cysylltiad â phlant a phobl ifanc.

5. Annog y rheiny y mae eu henwau ar y rhestr, a'r gynulleidfa i gyd, i ystyried materion gwar chod plant o ddifrif.

6. Lledaenu gwybodaeth am faterion amddiffyn plant.

7. Bod yn wybodus ac yn gwybod y diweddaraf am faterion amddiffyn plant.

8. Bod yn ymwybodol o gefnogaeth, cyngor a hyfforddiant yn yr Esgobaeth, ac annog cyfranogiad.

9. Cadw llygad gofalus ar adeiladau a gweithgareddau er mwyn rhoi cyngor ar sut y gellir lleihau'r peryglon i blant.

Côd ymarfer da - 2002

FFURFLEN CANIATÂD RHIENI - YMWELIADAU A GWEITHGAREDDAU

EGLWYS / GRŴP: .....

Ymweliad neu weithgaredd arfaethedig

Nodwch ar y darn i'w ddychwelyd os ydych am dynnu eich plentyn allan o unrhyw weithgaredd.

DYDDIAD YR YMWELIAD / GWEITHGAREDD: .....
LLE AC AMSER CYCHWYN: .....
LLE AC AMSER DYCHWELYD: .....
PRIS: …….. (siec yn daladwy i: .....)
TREFNIADAU CLUDIANT: .....
EITEMAU Y DYLID DOD Â HWY: .....

Ffurflen ganiatâd i'w dychwelyd erbyn: .....

Rhoddaf ganiatâd i: .....

i gymryd rhan yn yr ymweliad/gweithgaredd i ddigwydd ar: .....

Rhoddaf fy nghaniatâd am unrhyw driniaeth feddygol a fydd yn angenrheidiol mewn achos brys.

Amgaeaf siec/arian am y swm o: .....

Llofnod Rhiant / Amddiffynwr: .....

Dyddiad: …….. Rhif ffôn cysylltu mewn achos brys: .....

GWEITHGAREDDAU ANTUR AC ACHOSION MEDDYGOL BRYS

Enw, cyfeiriad a rhif ffôn y meddyg teulu: .....
.....
.....

Rhowch wybodaeth am unrhyw anghenion meddygol neu ddeiet penodol

Côd ymarfer da - 2002

BRASLUN O DDISGRIFIAD SWYDD A DATGANIAD I WEITHWYR GYDA PHLANT A PHOBL IFANC

Dylid llenwi'r ffurflen hon ar gyfer yr holl weithwyr gyda phlant a phobl ifanc. Os bydd y gwaith yn newid yn sylweddol fe ddylid llenwi ffurflen newydd. Dylid cadw copïau gan y gweithwyr, y Rheithor/Offeiriad â Gofal a'r Cyd-lynydd Amddiffyn Plant a benodir gan y C.P.E.	Eglwys

I'w lenwi ar ran y C.P.E.

Enw'r Gweithiwr	Enw'r grŵp (e.e. Ysgol Sul)

Lle / Pryd byddant yn cwrdd

Cwmpas oed	Person y mae'n atebol iddo/iddi (e.e. Arweinydd Grŵp Ieuenctid)

Gwaith i'w wneud

Arwyddwyd (ar ran y C.P.E.)

I'w lenwi gan y gweithiwr gyda phlant/pobl ifanc

Rydw i wedi deall natur y gwaith rydw i'n mynd i'w wneud gyda phlant/pobl ifanc. Rydw i wedi darllen y Côd Ymarfer Da ar gyfer diogelu plant a phobl ifanc. Rydw i'n deall ei bod yn ddyletswydd arnaf i warchod y plant a'r bobl ifanc yr ydw i mewn cysylltiad â hwy. Fe wn sut i weithredu os caiff camdriniaeth ei ganfod neu ei ddatgelu.

Arwyddwyd Dyddiad:

Côd ymarfer da - 2002

Ffurflen gais i weithio gyda phlant a phobl ifanc
CPP/1 Diwygiedig

PLWYF: .....

SWYDD Y MAE'R CAIS AMDANI: .....

Mae'r Eglwys yng Nghymru yn derbyn ac yn pwysleisio egwyddor Deddf Plant 1989 mai *lles y plentyn sydd bennaf bob amser*. Mae gofyn i bob person a gaiff gyfle i ddod i gysylltiad â phlentyn, fel rhan o unrhyw weinidogaeth ganiataol yn yr Eglwys yng Nghymru, i lenwi dwy ochr y ffurflen gais hon a'i dychwelyd at eu Periglor.

Cyfenw:	Teitl:
Enwau Cyntaf Llawn:	Enw Morwynol neu Gyfenw arall:
Dyddiad Geni:	

Cyfeiriad Llawn yn cynnwys Côd Post:

Eich cyfeiriad blaenorol os buoch yn y cyfeiriad uchod lai na 5 mlynedd:

Rhif Ffôn:

Dydd: Hwyr:

Dylech nodi unrhyw brofiad neu gymhwyster perthnasol a enillwyd trwy gyflogaeth neu waith gwirfoddol a allai fod o gymorth i chi yn eich gwaith bwriadol gyda phlant a phobl ifanc. Dylid defnyddio'r adran hon i nodi nodweddion neu ddiddordebau personol.

Ydych chi erioed wedi eich cael yn euog o drosedd, neu a ydych chi ar hyn o bryd ar gyhuddiad troseddol?

YDW / NAC YDW

(D.S. Efallai na fydd datgelu trosedd yn rhwystr rhag cael eich penodi)

Natur y drosedd:

Dyddiad y drosedd:

Rhowch enw a chyfeiriad dau ganolwr y gall y plwyf ofyn iddynt am wybodaeth ynghylch eich addasrwydd ar gyfer gwaith.

Enw:

Cyfeiriad:

Rhif Ffôn:

Gwaith:

Perthynas (os yw'n briodol)

Enw:

Cyfeiriad:

Rhif Ffôn:

Perthynas (os yw'n briodol)

Rwy'n tystio fod y wybodaeth a roddwyd ar y ffurflen hon yn wir ac yn gyflawn hyd eithaf fy ngwybodaeth, a rhoddaf ganiatâd drwy hyn i archwiliadau'r Swyddfa Cofnodion Troseddol. Rwy'n ymwybodol y caiff manylion collfarnau wedi darfod eu datgelu, ynghyd ag unrhyw wybodaeth berthnasol arall a fydd gan yr Heddlu.

ARWYDDWYD: ……. **DYDDIAD: …….**

ATODIAD 6

Cais am Eirda Cyfrinachol

Plwyf: .....
Enw: .....
Cyfeiriad: .....
Swydd: .....

Ers faint ydych chi'n adnabod y person a enwir uchod? .....

Sut ydych chi'n adnabod y person? .....

Ydych chi wedi gweld y person hwn yn gweithio gyda Phlant neu Bobl Ifanc? DO / NADDO

A wyddoch chi am unrhyw reswm pam na ddylai'r person hwn weithio gyda Phlant neu Bobl Ifanc? GWN / NA WN

Os byddwch chi'n ateb GWN i'r uchod, dylech nodi'r pryder sydd gennych isod (e.e. cyhuddiadau troseddol/dyfarniadau cyfreithiol eraill/trais yn y cartref/salwch meddyliol/symud plant o'u gofal/camddefnyddio alcohol/camddefnyddio cyffuriau /camddefnyddio glud/neu broblem arall.)

Ydych chi'n credu fod y person hwn yn:

Gonest?	YDY/NAC YDY
Un y gellir ymddiried ynddo	YDY/NAC YDY
Dibynadwy?	YDY/NAC YDY
Yn gallu cadw pethau'n gyfrinachol?	YDY/NAC YDY
Yn gallu gweithio fel aelod o dîm?	YDY/NAC YDY
Yn gallu dilyn gweithdrefn?	YDY/NAC YDY

Ydy'r person hwn:

Yn hoffi Plant a Phobl Ifanc?	YDY/NAC YDY
Yn trin Plant a Phobl Ifanc â pharch?	YDY/NAC YDY
Yn gwrando ar Blant a Phobl Ifanc ac yn parchu eu barn?	YDY/NAC YDY

A wyddoch chi am unrhyw gymhwyster a/neu brofiad sydd gan y person hwn mewn perthynas â gwaith gyda Phlant a Phobl Ifanc?

Yn eich barn chi pa ddoniau, sgiliau a nodweddion personol allai'r person hwn eu dwyn at waith gyda Phlant a Phobl Ifanc?

Oes gennych chi unrhyw sylwadau eraill a allai effeithio ar addasrwydd y person hwn i weithio gyda Phlant a Phobl Ifanc?

Fuasai'r person hwn yn sylwi ar beryglon na fuasai plentyn neu berson Ifanc yn sylwi arnynt?
BUASAI/NA FUASAI

Llofnod: Enw mewn Prif Lythrennau:

Diolch am lenwi'r ffurflen hon. Dylech ei dychwelyd at: _____

ARCHWILIADAU COFNODION TROSEDDOL Y CÔD YMARFER DA

Cyflwyniad

Mae cyhoeddiad y Swyddfa Gartref "Safe from Harm" yn dweud:-

"Fe ddylai cyrff geisio cael gwybodaeth gan bob ymgeisydd am waith cyflogedig neu wirfoddol ynghylch unrhyw droseddau blaenorol yn erbyn plant"

Yn ei hymrwymiad i dderbyn egwyddorion "Safe from Harm" mae'r Eglwys yng Nghymru wedi penderfynu fod yn rhaid i'r holl weithwyr cyflogedig a gwirfoddol presennol a newydd fod yn destun archwiliad cofnodion troseddol fel rhan o'r gweithdrefnau dethol a gwirio.

Bydd llawer o'r gweithwyr presennol eisoes wedi cwblhau ffurflen CPP/1 a ddosbarthwyd yn 1996. Bydd llawer o blwyfi wedi parhau i ddefnyddio'r ffurflen hon i hwyluso'r gweithdrefnau gwirio ers y dyddiad hwnnw ar gyfer gweithwyr newydd.

Yn y dyfodol bydd y plwyfi yn defnyddio CPP/1 ddiwygiedig i hwyluso casglu gwybodaeth am weithwyr cyflogedig a gwirfoddol a hefyd bydd angen i weithwyr cyflogedig a gwirtoddol i fenwi ffurflen Datgelu.

Gweithdrefn Newydd (gweler siart rediad)

- Cewch wybod gan y Gweinyddydd Amddiffyn Plant, Cofrestrfa'r Archesgob pan fydd y gweithdrefnau newydd yn dechrau i weithwyr cyflogedig a gwirfoddol.
- Bydd yn rhaid i bob gweithiwr cyflogedig a gwirfoddol gyflwyno cais i'r Swyddfa Cofnodion Troseddol cyn dechrau ar swydd neu waith gwirfoddol.
- Bydd yn rhaid i bob gweithiwr cyflogedig a gwirfoddol presennol lenwi ffurflen gais a fydd ar gael maes o law gan y Gweinyddydd Amddiffyn Plant yn ddi-dâl.
- Ar ôl ei llenwi rhaid i'r ymgeisydd gyflwyno'r ffurflen i glerigwr y plwyf er mwyn cadarnhau hunaniaeth yr ymgeisydd.
- Dylai'r clerigwr ddychwelyd y ffurflen at y Gweinyddydd Amddiffyn Plant yn yr amlen barod a ddarperir.
- Bydd y Gweinyddydd Amddiffyn Plant yn trefnu fod y cais yn cael ei gydarwyddo gan un o arwyddwyr cofrestredig yr Eglwys yng Nghymru ac yn cyflwyno'r cais i'r Swyddfa Cofnodion Troseddol.
- Bydd y Swyddfa Cofnodion Troseddol yn gwneud yr archwiliadau ac yn anfon y canlyniad at yr ymgeisydd ac ar yr un pryd at Gofrestrfa'r Archesgob.
- Os derbynnir datgeliad clir caiff y wybodaeth ei rhoi ar y databas gyda chadarnhad fod yr ymgeisydd yn glir i weithio gyda phlant a phobl ifanc.
- Bydd y Gweinyddydd Amddiffyn Plant yn rhoi gwybod i glerigwr y plwyf fod yr ymgeisydd yn glir i weithio gyda phlant a phobl ifanc.
- Os ceir datgeliad amheus bydd y Gweinyddydd Amddiffyn Plant yn rhoi gwybod ar unwaith i glerigwr y plwyf ac Esgob yr Esgobaeth a fydd yn penderfynu ar addasrwydd yr ymgeisydd i weithio gyda phlant a phobl ifanc. Gyda chaniatâd yr ymgeisydd gall y clerigwr ofyn am gyngor gan Gyd-lynydd Amddiffyn Plant y Plwyf, Swyddog Amddiffyn Plant yr Esgobaeth neu Gynrychiolydd yr Esgobaeth ar Banel Amddiffyn Plant yr Esgobion.
- Bydd y clerigwr yn rhoi gwybod i'r Gweinyddydd Amddiffyn Plant a yw'r ymgeisydd yn glir neu beidio i weithio gyda phlant a phobl ifanc.
- Bydd y Gweinyddydd Amddiffyn Plant yn rhoi'r manylion ar y databas diogel ac yn distrywio ar unwaith drwy rwygo deunydd cyfrinachol yr holl waith papur sy'n gysylltiedig â'r cais.

Unigolion y bydd angen archwiliadau'r Swyddfa Cofnodion Troseddol arnynt:
(Nid yw'r rhestr hon yn gynhwysfawr)

Pob clerigwr
Darllenwyr Lleyg Trwyddedig
Wardeniaid Eglwys
Cynorthwy-wyr y Cymun Bendigaid
Swyddog Amddiffyn Plant
Person Annibynnol (os penodwyd)
Arweinwyr, Athrawon a Chynorthwywyr Ysgol Sul
Arweinwyr a Chynorthwywyr Ieuenctid
Hyfforddwr y Sacristaniaid/Gweinyddion
Organyddion a chynorthwywyr
Hyfforddwyr Côr
Clochyddion
Llywodraethwyr Gwaddoledig Ysgolion yr Eglwys
Unrhyw berson arall sydd â chysylltiad di-wyliadwriaeth â phlant a phobl ifanc

Gellir cael cyngor a chymorth ar weinyddu'r weithdrefn hon oddi wrth Glenda Edwards, y Gweinyddydd Amddiffyn Plant, Rhif ffôn: 029 2034 8216 llinell uniongyrchol neu 029 2034 8200 switsfwrdd.

Dylid cyfeirio cyngor a chymorth ar unrhyw fater arall mewn perthynas â amddiffyn plant yn y lle cyntaf at Swyddog Amddiffyn Plant eich Esgobaeth. Ceir enwau, cyfeiriadau a rhifau ffôn cysylltu yng nghefn y pecyn hwn.

GWIRFODDOLWYR

Cam 1 GWIRFODDOLWR
Gwirfoddolwr i lenwi'r Ffurflen Gais, ei chyflwyno i Glerigwr i gadarnhau hunaniaeth ar gefn y ffurflen

⇨

Cam 2 CLERIGWYR
Igadarnhau hunanideth ar gefn y hurflen

Cam 3 CLERIGWR NEU GWIRFODD OLWR
Clerigwr i anfon ffurflen at y GGP mewn amlen barod

⇦

⇨

Cam 4 GWEINYDDYDD AMDDIFFYN PLANT
i archwilio'r ffurflen, ei chydarwyddo a'i hanfon at y SCT

Cam 5 SWYDDFA COFNODION TROSEDDOL
Archwiliadau gan y SCT a'r canlyniad i'w anfon at y gwirfoddolwr a'r cydarwyddwr (GGP) ar yr un pryd

⇦

⇩

Cam 5 GWEINYDDYDD AMDDIFFYN PLANT

Cam 6a
DATGELIAD CLIR

GGP i roi ar y databas
Enw, cyfeiriad, plwyf,
dyddiad a lle geni.
Clir i weithio
Gwybodaeth SCT ar bapur i'w ddistrywio drwy rwygo deunydd cyfrinachol
Rhoi gwybod i'r Clerigwr - Clir i weithio gyda Phlant a Phobl Ifanc

Cam 6b
DATGELIAD AMHEUS

GGP i roi gwybod ar unwaith
i'r Clerigwr ac Esgob yr Esgobaeth

⇩

Cam 7 CLERIGWR
Clerigwr i benderfynu ar addasrwydd i weithio gyda phlant, drwy holi Esgob yr Esgobaeth Cyd-lynydd Amddiffyn Plant y Plwyf, Swyddog Amddiffyn Plant yr Esgobaeth neu Gynrychiolydd yr Esgobaeth ar Banel Amddiffyn Plant yr Esgobion ond dim ond gyda chaniatâd yr unigolyn. Clerigwr i roi gwybod i'r GGP am y penderfyniad. Clir neu Ddim yn Glir

⇩

Cam 8 GWEINYDDYDD AMDDIFFYN PLANT
GGP i roi ar y databas enw, cyfeiriad, plwyf, dyddiad a lle geni. Clir neu ddim yn glir i weithio gyda Phlant a Phobl Ifanc. Gwybodaeth y SCT ar bapur i'w ddistrywio drwy rwygo deunydd cyfrinachol

Côd ymarfer da - 2002

ATODIAD 8

COFRESTR "SAFE FROM HARM" Y PLWYF

PLWYF: .....

ENW: .....

CYFEIRIAD: .....

RHIF FFÔN: .....

SWYDD/SAFLE: .....

CYFWELIAD

Cyfweliad ar:

Cyfweliad gan:

Canlyniad y cyfweliad: ADDAS / ANADDAS

SCT

Dyddiad anfon ffurflen SCT at Heol y Gadeirlan:

Canlyniad yn dychwelyd o Heol y Gadeirlan ar:

Oedd y canlyniad yn foddhaol? OEDD / NAC OEDD

GEIRDA

Dyddiad llenwi CCP/1:

Dyddiad cysylltu â Chanolwyr:

Dyddiad derbyn geirda:

Oedd y geirda yn foddhaol? OEDD / NAC OEDD

Clir neu ddim yn glir i weithio gyda Phlant a Phobl Ifanc?

CLIR / DDIM YN GLIR

Llofnod:

Swydd: Dyddiad:

Dylai'r rhai a enwir uchod fod yn ymwybodol o Bolisi Amddiffyn Plant y Plwyf ac enw a manylion cysylltu â Swyddog Amddiffyn Plant y Plwyf.

Côd ymarfer da - 2002

CANLLAWIAU AR YMDRIN Â DATGELU, AMAU NEU GANFOD CAMDRINIAETH

CANLLAWIAU

Mae'n ddyletswydd ar berson sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc i rwystro camdriniaeth ac i adrodd am unrhyw gamdrin a gaiff ei ganfod neu ei amau.

Mathau o gamdriniaeth:

- Corfforol, pan fydd plant neu bobl ifanc yn cael dolur neu anaf corfforol.

- Rhywiol, pan fydd oedolion yn ceisio gael boddhad rhywiol drwy ddefnyddio plant a phobl ifanc.

- Meddyliol, pan fydd plant neu bobl ifanc yn cael ei niweidio gan ddiffyg cariad a hoffter yn gyson, neu gan fygythiadau, gwawdio ayb.

Gall y canlynol fod yn arwyddion o gamdriniaeth:

- Camdrin corfforol: anafiadau heb esboniad neu'r rheiny sydd heb gael sylw meddyg, anafiadau cudd, arwyddion o esgeuluso.

- Camdrin rhywiol: honiadau a wneir gan y plentyn neu berson ifanc, synfyfyrdod am faterion rhywiol, gweithgaredd rhywiol drwy eiriau, chwarae neu luniau, tarfu difrifol ar gwsg gydag ofnau a ffobiâu, bod yn bryfoclyd rhywiol gydag oedolion.

- Camdrin meddyliol: atchweliad mewn ymddygiad, nerfusrwydd, tangyflawni sydyn, perthynas amhriodol gyda chyfoedion/oedolion, ceisio cael sylw, rhedeg i ffwrdd, lladrata/dweud celwydd, edrych yn ddiymgeledd.

DS: Mae camdrin corfforol ac esgeulustod yn anodd eu cuddio. Fe all camdrin rhywiol fod bron yn amhosibl ei ganfod a'i brofi. Gall llawer o arwyddion gofid fod yn arwyddion o gamdrin ond efallai fod yna esboniadau eraill.

Mae'n bwysig felly nad yw'r arwyddion uchod yn cael eu hystyried fel arwyddion fod camdriniaeth wedi digwydd. Fe ddylent wneud i ni aros a meddwl, ond nid o angenrhaid ruthro at gasgliadau.

Os byddwch chi'n amau camdriniaeth:

- Peidiwch ag oedi.
- Rhowch wybod i'r Cyd-lynydd Amddiffyn Plant a benodwyd gan y CPE. Ar adeg cyhoeddi'r Canllawiau hyn, enw eich Cyd-lynydd yw:

  Enw: .....
  Cyfeiriad: .....
  Rhif ffôn: .....

- Os mai'r Cyd-lynydd fydd yn cael ei amau, neu os nad yw'r Cyd-lynydd ar gael, rhowch wybod i'r Ficer neu'r Rheithor, neu Esgob yr Esgobaeth.

Sut i ymateb os bydd plentyn neu berson ifanc am siarad am gamdrin:

DYLECH

Derbyn beth ddywed y plentyn neu'r person ifanc, aros yn ddigyffro ac edrych arnynt yn uniongyrchol.
Gwrando â chydymdeimlad.
Rhowch wybod iddynt fod yn rhaid i chi ddweud wrth rywun arall. Peidiwch ag addo cyfrinachedd.
Sicrhewch y plentyn neu'r person ifanc eu bod wedi gwneud y peth iawn i ddweud – hyd yn oed os bydd plentyn neu berson ifanc wedi torri rheol, nid ydynt ar fai.
Gallwch ddweud rhywbeth o gymorth fel:

"Rwy'n falch i chi ddweud wrtha i"
"Nid eich bai chi yw hyn"
"Fe helpa i chi"

Byddwch yn ymwybodol y gallai'r plentyn neu'r person ifanc fod wedi ei fygwth.
Rhowch wybod i'r plentyn neu'r person ifanc beth fyddwch chi'n ei wneud nesaf ac y byddwch chi'n rhoi gwybod iddo/iddi beth fydd yn digwydd.
Gwnewch nodiadau cyn gynted â phosibl, ac ysgrifennu yr union beth a ddywedwyd a phryd cafodd ei ddweud gan gynnwys manylion yr hyn a ddywedsoch chi wrth ymateb. Gwnewch gofnod o ddyddiadau ac amserau'r digwyddiadau hyn a chadwch y cofnodion mewn llawys grifen hyd yn oed os cânt eu teipio wedyn.

PEIDIWCH Â

Cynhyrfu.
Dweud pethau fel:

"Pam na ddywedsoch chi wrth rywun o'r blaen?"
"Alla i ddim credu'r peth"
"Ydych chi'n siwr fod hyn yn wir?"
"Dwi'n synnu – peidiwch â dweud wrth unrhyw un arall"

Gwneud i'r plentyn neu berson ifanc ail-ddweud yr hanes yn ddiangen.

Gofyn am y manylion na cheisio ymchwilio.

Ceisio ymdrin â'r broblem yn uniongyrchol.

Cysylltu â'r person sy'n cael ei gyhuddo'n uniongyrchol.

I'ch helpu chi, gweler y siart rediad.

Amau Camdriniaeth: Sut i Weithredu

Os bydd gennych gwestiynau neu bryderon cyffredinol dylech gysylltu naill ai â Swyddog Amddiffyn Plant eich Plwyf neu Swyddog Amddiffyn Plant yr Esgobaeth. (Ceir enw, cyfeiriad a rhif ffôn yn adran 5.)

RHANNWCH BRYDERON OND DYLECH BARCHU CYFRINACHEDD

Camau i'w dilyn
os bydd pryderon difrifol



Peidiwch ag ymchwilio
Rhowch wybod i'r Gwasanaethau Cymdeithasol

Dywedwch, "Rwy'n awyddus i drafod gyda chi blentyn sydd mewn perygl o gamdriniaeth."

Ymdrin â Honiadau yn erbyn un o Weithwyr yr Eglwys

PEIDIWCH AG ymchwilio
PEIDIWCH Â barnu nag asesu risg
PEIDIWCH Â thrafod Ymholiadau'r Wasg

RHAID I CHI gydweithio gyda a dilyn cyngor yr Asiantaethau Statudol
RHAID I CHI gadw cofnodion manwl, dyddiedig o bob sgwrs, gweithred ac ymateb

CAM UN

Rhaid i chi roi adroddiad am y mater i'r Gwasanaethau Cymdeithasol neu'r Heddlu

CAM DAU

Rhaid i chi roi gwybod i Swyddog Amddiffyn Plant yr Esgobaeth a fydd yn rhoi gwybod i'r Esgob

Bydd Swyddog Amddiffyn Plant yr Esgobaeth mewn cydweithrediad â'r Esgob yn trefnu cefnogaeth fugeiliol ar wahân i:-

- y Camdriniwr honedig
- y Plentyn a'r Teulu
- Cymuned yr Eglwys

Bydd y Gwasanaethau Cymdeithasol a/neu'r Heddlu yn trefnu cyfarfod strategaeth. **D.S.** Efallai cewch chi gais i fod yn bresennol. Bydd y Gwasanaethau Cymdeithasol a/neu'r Heddlu yn rhoi cyngor am unrhyw weithredu angenrheidiol

Caiff pob ymholiad gan y Wasg eu trafod gan Swyddog Cyfathrebu yr Eglwys yng Nghymru
Rhif ffôn: 029 2034 8208

DILYNWCH Y CYNGOR A'R CYFARWYDDYD A RODDIR GAN Y GWASANAETHAU CYMDEITHASOL A/NEU'R HEDDLU

Canllawiau er ymdrin â Throseddwyr Rhyw hysbys yng Nghymuned yr Eglwys

PEIDIWCH AG ymchwilio
PEIDIWCH Â barnu nag asesu risg
PEIDIWCH Â thrafod Ymholiadau'r Wasg

RHAID I CHI gydweithio gyda a dilyn cyngor yr Asiantaethau Statudol

D.S. Caiff Cymuned yr Eglwys wybod os bydd troseddwr rhyw hysbys yn dod i fyw yn yr ardal.

Os bydd troseddwr rhyw hysbys yn ceisio ymuno â'r Eglwys. → Rhowch wybod i Swyddog Amddiffyn Plant yr Esgobaeth. Rhowch wybod iddi/iddo am bob gweithred.

↓

Rhaid cynnal trafodaeth agored a chadw mewn cysylltiad.

↓

Rhaid sefydlu ffiniau eglur er mwyn amddiffyn plant a phobl ifanc a lleihau'r posibilrwydd o gyhuddo'r oedolyn.

↓ ↓ ↓

Rhaid i arweinwyr yr Eglwys gadw cysylltiad agos gydag unrhyw swyddog prawf neu berson proffesiynol arall sy'n ymwneud â'r troseddwr.

Rhaid i'r CPE benderfynu pwy sy'n gyfrifol am wneud unrhyw gytundeb (contract). Paratowch gytundeb (contract). Os yw'n addas gall yr Heddlu roi cyngor ar y mater hwn. Rhaid i'r cytundeb (contract) gael ei arwyddo a'i ddyddio a chynnwys cefnogaeth gofal bugeiliol. Rhaid rhannu gwybodaeth ar sail "angen gwybod". Nodwch enw person o fewn Cymuned yr Eglwys i weithredu fel "gofalydd".

Byddwch yn agored ac onest gyda'r Troseddwr. Cofiwch mai chi sy'n rheoli – gall troseddwyr rhyw fod yn ystrywus.

↓

Gorfodwch y Cytundeb (contract)

↓

Os caiff y Cytundeb (contract) ei dorri

↙ ↓ ↘

Rhowch wybod i'r Swyddog Prawf a'r Heddlu.

Rhowch wybod i Swyddog Amddiffyn Plant yr Esgobaeth

Rhowch wybod i'r Eglwysi eraill yn yr ardal.

D.S. CEISIWCH GAEL CYNGOR A CHYFARWYDDYD GAN YR ASIANTAETHAU STATUDOL, YR HEDDLU, GWASANAETHAU CYMDEITHASOL A'R GWASANAETH PRAWF.

Caiff bob ymholiad gan y Wasg eu trafod gan Swyddog Cyfathrebu yr Eglwys yng Nghymru.
Rhif ffôn: 029 2034 8208

Côd Ymarfer Da - 2004

SIART REDIAD – GWASANAETH DATGELIAD

Cynnig Penodiad yn amodol ar dderbyn geirda boddhaol, Datgeliad SCT, ac yn achos swyddi cyflogedig, meddygol.

↓

Cais am ddatgeliad wedi ei gyflwyno trwy'r Gweinyddydd Amddiffyn Plant

↓

GGP yn derbyn datgeliad gan y SCT (ar yr un pryd â'r ymgeisydd)

Datgeliad clir

Y Gweinyddydd Amddiffyn Plant yn rhoi gwybod i'r Esgob/Periglor

↓

Gall yr Esgob/ Periglor gadarnhau'r cynnig i benodi

↓

Ymgeisydd yn cadarnhau fod y wybodaeth yn gywir nid yn ddifrifol sicrwydd yr ymgeisydd

↓

Gall yr Esgob/ Periglor gadarnhau'r penodiad

↓

Esgob/Periglor yn rhoi gwybod i'r GGP* am y penderfyniad

Datgeliad Amheus

Cadarnhau gwybodaeth a roddwyd eisoes

↓

Gall yr Esgob/ Periglor gadarnhau'r cynnig i benodi

↓

Ymgeisydd yn cadarnhau fod y wybodaeth yn gywir ond mae'n ddifrifol ymgeisydd yn methu â rhoi sicrwydd

↓

Rhaid i'r Esgob/Periglor dynnu'r cynnig penodiad yn ôl

↓

Esgob/Periglor yn rhoi gwybod i'r GGP* am y penderfyniad

Datgelu gwybodaeth newydd ynghylch cofnod troseddol

↓

Esgob/Periglor i drafod gyda'r ymgeisydd

↓

Ymgeisydd yn dadlau ynghylch gwybodaeth ond nid yw'r wybodaeth yn peri pryder

↓

Gall yr Esgob/Periglor gadarnhau'r penodiad

↓

Esgob/Periglor yn rhoi gwybod i'r GGP* am y penderfyniad

Ymgeisydd yn dadlau ynghylch gwybodaeth mae'r wybodaeth yn ddifrifol

↓

Rhaid i'r Esgob/Periglor ohirio'r penodiad a rhoi gwybod i'r ymgeisydd am ddilyn trefn anghydfod gyda'r SCT

Ar ôl derbyn ail-archwiliad mae'r wybodaeth ar ôl anghydfod yn ddifrifol, a'r ymgeisydd yn methu â rhoi sicrwydd

↓

Rhaid i'r Esgob/Periglor dynnu'r cynnig penodiad yn ôl

Ar ôl derbyn ail-archwiliad os ceir fod y wybodaeth ar ôl anghydfod yn anghywir

↓

Gall yr Esgob/Periglor gadarnhau'r penodiad

↓

Esgob/Periglor i roi gwybod i'r GGP* am y penderfyniad

GGP* = Gweinyddydd Amddiffyn Plant

***DS**. Cewch gadarnhau cynnig i benodi dim ond os bydd bob archwiliad cyn penodi yn foddhaol.

BETH I'W WNEUD OS DERBYNNIR DATGELIAD AMHEUS ODDI WRTH Y SWYDDFA COFNODION TROSEDDOL

Efallai bydd gwasanaeth y Swyddfa Cofnodion Troseddol yn nodi fod cofnod troseddol gan ymgeisydd. Yn yr Eglwys yng Nghymru fe fydd y sawl sy'n derbyn y datgeliad, h.y. y Gweinyddydd Amddiffyn Plant yn:-

1. Yn achos clerigwr yn rhoi gwybod i Esgob yr Esgobaeth fod datgeliad amheus wedi ei dderbyn.
2. Yn achos gweithiwr cyflogedig neu wirfoddol yn y plwyf yn rhoi gwybod i Beriglor y plwyf fod datgeliad amheus wedi ei dderbyn.

Beth nesaf?

1. Trafod

Dylai'r Esgob yn achos clerigwr, neu'r Periglor yn achos gweithiwr cyflogedig neu wirfoddol, drafod y mater gyda'r ymgeisydd.

2. Canlyniad y drafodaeth

1. Bydd yr ymgeisydd yn cadarnhau fod y wybodaeth yn gywir. Os bydd yr Esgob/Periglor yn ystyried:-

   1.1 nad yw'r mater yn ddifrifol neu
   1.2 fod mân anghysondebau ac ni ystyrir fod y mater yn ddifrifol
   1.3 fod yr ymgeisydd yn gallu rhoi sicrwydd
   1.4 fod bob archwiliad arall cyn penodi yn foddhaol.

   Wedyn gall yr Esgob/Periglor gadarnhau'r penodiad.

2. Bydd yr ymgeisydd yn cadarnhau fod y wybodaeth yn gywir. Os bydd yr Esgob/Periglor yn ystyried:-

   2.1 fod y cofnod yn rhy ddifrifol, a
   2.2 nad yw'r ymgeisydd yn gallu rhoi sicrwydd.

   Wedyn rhaid i'r Esgob/Periglor dynnu yn ôl y cynnig i benodi i swydd gyflogedig neu wirfoddol.

3. Bydd yr ymgeisydd yn dadlau ynghylch y wybodaeth yn y datgeliad. Os bydd yr Esgob/Periglor yn ystyried:-

   3.1 nad yw'r wybodaeth yn peri pryder
   3.2 fod yr ymgeisydd yn gallu rhoi sicrwydd
   3.3 fod pob archwiliad arall cyn penodi yn foddhaol.

   Wedyn gall yr Esgob/Periglor gadarnhau'r penodiad.

4. Bydd yr ymgeisydd yn dadlau ynghylch y wybodaeth yn y datgeliad. Os bydd yr Esgob/Periglor yn ystyried:-

   4.1 fod y wybodaeth yn ddifrifol.

   RHAID i'r Esgob/Periglor ohirio'r penodiad er mwyn i'r ymgeisydd drefnu gyda'r SCT fod y wybodaeth yn cael ei ail-archwilio.

3. Ail-archwilio datgeliad

1. Rhaid i'r ymgeisydd ail-archwilio'r wybodaeth gyda'r Swyddfa Cofnodion Troseddol. Ni ellir gwneud yr ail-archwilio gan drydydd parti.
2. Ar ôl cael ei ail-archwilio, os bydd unrhyw wybodaeth o natur ddifrifol yn cael ei gadarnhau, a'r ymgeisydd yn methu â rhoi sicrwydd, yna mae'n RHAID i'r Esgob/Periglor dynnu yn ôl y cynnig i benodi.
3. Ar ôl cael ei ail-archwilio, os ceir fod gwybodaeth y datgeliad a dderbyniwyd yn anghywir, yna gall yr Esgob/Periglor gadarnhau'r penodiad os bydd pob archwiliad arall cyn penodi yn foddhaol.
4. Ym mhob achos mae'n rhaid i'r Esgob/Periglor roi gwybod i'r Gweinyddydd Amddiffyn Plant am y penderfyniad ynghylch y penodiad yn ysgrifenedig:-

   naill ai – i gadarnhau'r penodiad,
   neu i dynnu'r cynnig yn ôl.

   D.S. Gweler y siart rediad sydd ynghlwm.

4. Pobl â chollfarnau troseddol

Mae'r Ddeddf Ailsefydlu Troseddwyr 1974 yn caniatáu i gollfarnau troseddol "ddarfod" neu gael eu hanwybyddu ar ôl "cyfnod o ailsefydlu".

O dan y Ddeddf ni all collfarn "ddarfod" na chael ei hanwybyddu os rhoddwyd dedfryd o fwy na 2½ flynedd yn y carchar neu os oedd yn garchar am oes, yn gadwad ataliol neu'n ddedfryd gyfatebol i bobl ifanc.

Mae Gorchymyn (Eithriadau) 1975 y Ddeddf Ailsefydlu Troseddwyr 1974 yn darparu na fydd y Ddeddf Ailsefydlu Troseddwyr 1974 yn gymwys o dan rhai amgylchiadau, yn arbennig mewn perthynas â rhai proffesiynau. Mae rhestr hir o broffesiynau e.e. Nyrsys, Athrawon, Cyfrifyddion, Cyfreithwyr, Bargyfreithwyr, Gweithwyr Cymdeithasol ayb. Am ragor o wybodaeth am y mater hwn dylech gysylltu â Phennaeth Adnoddau Corff y Cynrychiolwyr.

Fodd bynnag o dan ddarpariaethau y Ddeddf Amddiffyn Plant 1999 a'r Ddeddf Gwasanaethau Llys 2000 mae rhai pobl wedi eu GWAHARDD rhag gweithio gyda phlant. Ceir gwybodaeth am rai pobl yn Atodiad 2.

Gellir cael cyngor a chyfarwyddyd ar y drefn i'w dilyn os derbynnir datgeliad amheus, ac am y ddeddfwriaeth a ddyfynnir yn y datganiad hwn, oddi wrth:-

Karen Phillips	Pennaeth Adnoddau	029 2034 8234
Glenda Edwards	Gweinyddydd Amddiffyn Plant	029 2034 8216

CYFARWYDDIADAU YNGHYLCH POBL A WAHERDDIR RHAG GWEITHIO GYDA PHLANT

O dan y ddeddfwriaeth ganlynol mae rhai pobl wedi eu gwahardd rhag gweithio gyda phlant:-

Y DDEDDF AMDDIFFYN PLANT 1999
Y DDEDDF GWASANAETHAU LLYS 2000

Sef:

Pobl ar Restr 99 Yr Adran Addysg a Sgiliau (DES)
Pobl ar Restr Yr Adran Iechyd (DOH)
Pobl 18 oed neu drosodd a farnwyd yn euog o droseddau penodedig arbennig yn erbyn y rheiny sy'n 18 oed (neu 16 oed mewn rhai achosion) ac a gafodd orchymyn ysbyty neu warcheidiaeth neu ddedfryd o garchar am 12 mis neu ragor.
D.S. Caiff dedfrydau ataliedig o 12 mis neu ragor eu trin fel dedfrydau sy'n gymwys.

Mae'r troseddau penodedig (a elwir yn Droseddau Rhestr Pedwar) yn cynnwys:-

- Llofruddiaeth neu ddyn-laddiad
- Trais neu fwrgleriaeth gyda'r bwriad i gyflawni trais
- Niwed corfforol difrifol
- Creulondeb i blant
- Herwgipio, carcharu ar gam a chipio
- Ymosod yn anweddus ar ddyn neu ddynes
- Cyfathrach rywiol gyda phlentyn o dan 13 oed
- Cyfathrach gyda merch rhwng 13 a 16 oed
- Sodomiaeth gyda phlentyn o dan 16 oed
- Anweddustra rhwng dynion
- Camddefnyddio ymddiriedaeth
- Llosgach a throseddau perthynol
- Ymosod gyda'r bwriad i gyflawni sodomiaeth
- Anweddustra gyda phlant o dan 14 oed
- Troseddau mewn perthynas â neu'n annog puteindra gan blant
- Troseddau mewn perthynas â phornograffi plant

Mae'r diffiniadau a geir yn y Canllaw ar Warchod Plant yn diffinio gweithio gyda phlant fel, yn fras:-

- Cyflogaeth mewn sefydliadau arbennig e.e. ysgolion, cartrefi plant ac ysbytai plant*.
- Cyflogaeth mewn adeiladau gofal dydd.
- Gofalu am, hyfforddi, goruchwylio neu fod â gofal unigol am blant, sefyllfa lle bo'r dyletswyddau arferol yn golygu cysylltiad di-oruchwyliaeth gyda phlant*.
- Y rheiny sy'n cyflogi ac yn gyfrifol am blant o dan 16 oed*.
- Swyddi o ddylanwad a rheolaeth dros blant a allai beri risg iddynt*.

Yng nghyd-destun swyddi cyflogedig a gwirfoddol o fewn yr Eglwys yng Nghymru fe fuasai'r diffiniadau a nodir â * yn briodol yn gyffredinol.

PLANT A PHOBL IFANC – CÔD YMARFER DA RECRIWTIO CYN-DROSEDDWYR

Mae'r Eglwys yng Nghymru drwy Gofrestrfa'r Archesgob yn defnyddio'r Swyddfa Cofnodion Troseddol i asesu addasrwydd ymgeiswyr ar gyfer swyddi cyflogedig a gwirfoddol sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc.

Mae'r datganiad canlynol yn cydymffurfio'n llawn gyda Chôd Ymarfer y Swyddfa Cofnodion Troseddol ac yn ymrwymo i drin pob ymgeisydd am swyddi cyflogedig a gwirfoddol yn deg. Mae'r Eglwys yng Nghymru yn addo peidio â chamwahaniaethu yn annheg yn erbyn unigolyn mewn Datgeliad ar sail collfarn neu wybodaeth arall a ddatgelir.

Mae'r Eglwys yng Nghymru yn ymrwymedig i drin yn deg ei gweithwyr cyflogedig a gwirfoddol, darpar weithwyr a'r rheiny sy'n addoli ac yn cymryd rhan ym mywyd yr eglwys, heb ystyried hil, rhyw, anabledd, oed. Er fod yr Eglwys yng Nghymru yn ymrwymedig i ddarparu cydraddoldeb i bob sector o'r gymdeithas, mae'n rhaid cydnabod fod pob swydd gyflogedig a gwirfoddol, ac eithrio swyddi gweinyddol o fewn Corff y Cynrychiolwyr, Byrddau Cyllid yr Esgobaethau a Grwpiau Cyfrifoldeb Cymdeithasol, i gyd yn ymwneud yn uniongyrchol â gweithgareddau addoli, ac fel y cyfryw mae yna ofyniad galwedigaethol diffuant fod y person hwnnw yn Anglican neu'n berson sydd mewn cymundeb gyda'r Eglwys Anglicanaidd.

Mae'r Eglwys yng Nghymru drwy ei Gôd Ymarfer Da at ddefnydd y plwyfi yng Nghymru yn datgan "efallai na fydd datgeliad am drosedd yn rhwystr i'ch penodi chi".

Mae'r Eglwys yng Nghymru yn hyrwyddo cydraddoldeb i bawb gan gynnwys y rheiny â chofnodion troseddol ac yn fwyaf arbennig fe gaiff y rheiny gyda'r cyfuniad iawn o dalent, sgiliau a photensial ar gyfer swyddi cyflogedig a gwirfoddol eu dewis ar sail eu sgiliau, cymwysterau a phrofiad.

Fe fydd yn rhaid i bob ymgeisydd llwyddiannus am swyddi cyflogedig a gwirfoddol sy'n gweithio gyda phlant sicrhau naill ai Ddatgeliad Uwch neu Safonol yn unol â'r cyfarwyddyd. Gofynnir am Ddatgeliad yn dilyn asesiad risg trylwyr sydd wedi dangos fod un yn gymesur ac yn berthnasol i'r swydd gyflogedig neu wirfoddol o dan sylw.

Pan ystyrir fod Datgeliad yn angenrheidiol fe fydd yr holl ddeunydd recriwtio yn cynnwys datganiad y bydd angen Datgeliad os bydd yr unigolyn yn cael cynnig y swydd.

Pan ystyrir fod Datgeliad yn angenrheidiol fe anogir ymgeiswyr i roi manylion unrhyw gofnod troseddol ar adeg y cais yn y broses recriwtio. Mae'r wybodaeth ofynnol yn ymwneud â chollfarnau sydd "wedi darfod" yn ôl y diffiniad yn y Ddeddf Ailsefydlu Troseddwyr 1974.

Fe gaiff pawb sydd â chyfrifoldeb neu sy'n ymwneud â phenderfyniadau recriwtio gyngor a/neu hyfforddiant addas er mwyn pennu ac asesu perthnasedd ac amgylchiadau unrhyw drosedd a'r ddeddfwriaeth berthnasol sy'n berthynol i gyflogaeth cyn- droseddwyr.

Os bydd ymgeiswyr yn datgelu collfarnau troseddol sydd wedi darfod, bydd y person sy'n gyfrifol am y penderfyniad recriwtio yn sicrhau fod trafodaeth agored a phwyllog yn digwydd ar bwnc unrhyw droseddau. Fe allai methiant i ddatgelu gwybodaeth sy'n uniongyrchol berthnasol i'r swydd a geisir arwain at dynnu yn ôl y cynnig swydd, p'un ai'n gyflogedig neu'n wirfoddol. O dan amgylchiadau o'r fath, dylech gyfeirio at y cyfarwyddyd a roddwyd – "Beth i'w wneud os derbynnir datgeliad amheus oddi wrth y Swyddfa Cofnodion Troseddol".

Bydd y person sy'n gyfrifol am y penderfyniad recriwtio yn trafod unrhyw fater a ddatgelir mewn Datgeliad gyda'r ymgeisydd cyn tynnu yn ôl unrhyw gynnig amodol am swydd neu benodiad.

Bydd copi o Gôd Ymarfer y Swyddfa Cofnodion Troseddol ar gael os gwneir cais.

PLANT A PHOBL IFANC – CÔD YMARFER DA
SWYDDFA COFNODION TROSEDDOL – POLISI DIOGELWCH DATGELIADAU

CYFLWYNIAD

Mae Cofrestrfa'r Archesgob yn Gorff Cofrestredig yn ôl diffiniad y Swyddfa Cofnodion Troseddol ac mae'n defnyddio Gwasanaethau Datgelu'r SCT i helpu gydag asesu addasrwydd gweithwyr cyflogedig a gwirfoddol ar gyfer swyddi sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc o fewn yr Eglwys yng Nghymru.

Rhaid i Gofrestrfa'r Archesgob gydymffurfio â Chôd Ymarfer y SCT i Gyrff Cofrestredig a rhaid iddo gydymffurfio'n llawn gyda'r Côd hwnnw o ran trafod, defnyddio, storio, cadw a gwaredu priodol unrhyw Ddatgeliadau a gwybodaeth am Ddatgeliadau.

1. DATGANIAD POLISI

Mae Cofrestrfa'r Archesgob yn cydymffurfio â Chôd Ymarfer y SCT ac yn arbennig y gofynion cyfreithiol o ran trafod, defnyddio, storio, cadw a gwaredu unrhyw Ddatgeliadau a gwybodaeth am Ddatgeliadau.

2. STORIO A MYNEDIAD

2.1 Ni chaiff gwybodaeth datgeliad ei gadw am gyfnod hwy nag sy'n angenrheidiol i wneud penderfyniad recriwtio.

2.2 Ni chaiff gwybodaeth datgeliad ei gadw ar ffeil bersonol yr ymgeisydd nac ar unrhyw ffeil a allai gael ei ganfod fel un sy'n perthyn i unigolyn a enwir.

2.3 Caiff gwybodaeth datgeliad ei gadw bob amser ar wahân ac yn ddiogel mewn cynwysyddion storio y gellir eu cloi ond nid eu cario.

2.4 Caiff mynediad at gynwysyddion storio ei reoli'n llym ac fe fydd yn gyfyngedig i'r unigolion hynny sydd â'r hawl i'w gweld fel rhan o'u dyletswyddau h.y. y Gweinyddydd Amddiffyn Plant, Cynorthwy-ydd Amddiffyn Plant a'r Pennaeth Adnoddau.

3. TRAFOD

3.1 Cydnabyddir ei bod yn drosedd i roi Datgeliad neu wybodaeth Datgeliad i unrhyw un nad oes ganddo'r hawl i'w dderbyn. Yn unol ag Adran 124 y Ddeddf Heddlu 1997, caiff gwybodaeth datgeliad ei rhoi i'r rheiny sydd ag awdurdod i'w dderbyn yn unig fel rhan o'u gwaith, h.y. Esgob yr Esgobaeth yn achos clerigion a'r Periglor yn achos gweithwyr cyflogedig a gwirfoddol y plwyf.

3.2 Cedwir cofnod o bob un y mae'r Datgeliad neu wybodaeth Datgeliad wedi eu dadlennu iddynt.

4. DEFNYDDIO

Caiff Datgeliad a gwybodaeth Datgeliad eu defnyddio dim ond at y diben penodol y gwnaed y cais amdano, h.y. i gynorthwyo gyda phenderfyniadau recriwtio, a'r hyn y rhoddwyd caniatâd llawn yr ymgeisydd amdano.

5. CADW

5.1 Ar ôl i benderfyniad recriwtio gael ei wneud, caiff gwybodaeth Datgeliad ei ddistrywio ar unwaith drwy rwygo deunydd cyfrinachol. Ni chedwir Datgeliadau a gwybodaeth datgeliadau am gyfnod hwy nag sy'n angenrheidiol. Fel arfer fe fydd am gyfnod rhwng 2 wythnos a 6 mis.

5.2 Os ystyrir o dan amgylchiadau eithriadol iawn fod angen cadw Datgeliadau neu wybodaeth Datgeliadau am gyfnod hwy na 6 mis fe fydd angen ymgynghori â'r Swyddfa Cofnodion Troseddol. O dan amgylchiadau o'r fath fe fydd yr amodau arferol o ran storio diogel a mynediad o dan reolaeth llym yn berthnasol.

6. GWAREDU

6.1 O fewn 10 diwrnod gwaith ar ôl i'r penderfyniad recriwtio gael ei wneud fe gaiff yr holl Ddatgeliadau a gwybodaeth Datgeliadau eu distrywio drwy rwygo deunydd cyfrinachol. Tra'n aros am waredu caiff bob Datgeliad a gwybodaeth Datgeliad eu cadw mewn storfa ddiogel ac fe gaiff y mynediad at storfa o'r fath ei reoli'n llym fel y nodir ym mharagraff 2.4 y datganiad polisi hwn.

6.2 Ni chedwir llungopïau na delweddau eraill o'r Datgeliadau nac unrhyw gopi neu gynrychiolaeth o gynnwys y Datgeliad.

6.3 Caiff y wybodaeth ganlynol ei chadw mewn databas diogel, a bydd mynediad at y databas yn gyfyngedig fel y nodir ym mharagraff 2.4 y datganiad polisi hwn. Bydd y wybodaeth a gedwir yn y databas yn nodi enw a chyfeiriad yr ymgeisydd, y math o ddatgeliad h.y. uwch neu safonol, y swydd y gwnaed y cais am Ddatgeliad ar ei gyfer, dyddiad anfon y Datgeliad a sylw ar y penderfyniad recriwtio, h.y. derbyn neu beidio â derbyn.

7. GWYBODAETH

Am gyngor, cyfarwyddyd neu eglurhad am unrhyw beth a gynhwysir yn y datganiad polisi hwn dylech gysylltu â:-

Glenda Edwards	Gweinyddydd Amddiffyn Plant	029 2034 8216
Karen Phillips	Pennaeth Adnoddau	029 2034 8234

CANLLAWIAU AR YMDRIN Â DATGELU, AMAU NEU DDARGANFOD CAMDRINIAETH.

CANLLAWIAU

Mae'n ddyletswydd ar berson sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc i rwystro camdriniaeth ac i roi gwybod am ddarganfod neu amau camdriniaeth.

Mathau o gamdriniaeth:

- Corfforol, pan fydd plant neu bobl ifanc yn cael dolur neu anaf corfforol.
- Rhywiol, pan fydd oedolion yn ceisio cael boddhad rhywiol drwy ddefnyddio plant a phobl ifanc.
- Emosiynol, pan fydd plant neu bobl ifanc yn cael eu niweidio gan ddiffyg cariad a hoffter yn gyson, neu gan fygythiadau, gwawdio, ayb.

Gall y canlynol fod yn arwyddion o gamdriniaeth:

- Cam-drin corfforol: anafiadau heb esboniad neu'r rheiny sydd heb gael sylw meddygol, anafiadau cudd, arwyddion o esgeuluso.
- Cam-drin rhywiol: honiadau a wneir gan y plentyn neu berson ifanc, synfyfyrdod am faterion rhywiol, gweithgaredd rhywiol drwy eiriau, chwarae neu luniau, tarfu difrifol ar gwsg gydag ofnau a ffobiâu, bod yn bryfoclyd rhywiol gydag oedolion.
- Cam-drin emosiynol: atchweliad mewn ymddygiad, nerfusrwydd, tangyflawni sydyn, perthynas amhriodol gyda chyfoedion/oedolion, ceisio cael sylw, rhedeg i ffwrdd/lladra ta/dweud celwydd, edrych yn ddiymgeledd.

Mae camdriniaeth corfforol ac esgeulustod yn anodd eu cuddio. Gall camdriniaeth rhywiol fod bron yn amhosibl ei ganfod a'i brofi. Fe all nifer o arwyddion gofid awgrymu camdriniaeth ond efallai fod esboniadau eraill.

Mae'n bwysig, felly, nad yw'r arwyddion uchod yn cael eu hystyried fel arwyddion fod camdriniaeth wedi digwydd. Fe ddylent wneud i ni aros a meddwl, ond nid o angenrhaid ruthro at gasgliadau.

Mae'n ddyletswydd ar bawb sy'n gweithio gyda phlant a theuluoedd i:-

- Rhoi gwybod am unrhyw wybodaeth, pryderon neu amheuon fod plentyn yn dioddef, wedi dioddef neu'n debygol o fod mewn perygl o gael niwed. Fe ddylech sicrhau fod eich pryderon yn cael eu cyfeirio at y Gwasanaethau Cymdeithasol neu Uned Amddiffyn Plant yr Heddlu.
- Ar yr un pryd dylech roi gwybod i Swyddog Amddiffyn Plant yr Esgobaeth a fydd yn rhoi gwybod i'r Esgob.

Ar adeg cyhoeddi'r gwelliant hwn:-

Swyddog Amddiffyn Plant yr Esgobaeth

Enw:

Rhif ffôn:

D.S. MAE'R CANLLAWIAU HYN WEDI EU NEWID YN UNOL Â "GWEITHDREFNAU AMDDIFFYN PLANT CYMRU GYFAN" A GYHOEDDWYD GAN LYWODRAETH CYNULLIAD CYMRU.

Sut i ymateb os bydd plentyn neu berson ifanc am siarad am gamdriniaeth:

DYLECH

- Derbyn beth ddywed y plentyn neu'r person ifanc, aros yn ddigyffro ac edrych arnynt yn uniongyrchol.
- Gwrando gyda chydymdeimlad.
- Rhowch wybod iddynt fod yn rhaid i chi ddweud wrth rywun arall. Peidiwch ag addo cyfrinachedd.
- Sicrhewch y plentyn neu'r person ifanc eu bod wedi gwneud y peth iawn i ddweud – hyd yn oed os bydd plentyn neu berson ifanc wedi torri rheol, nid ydynt ar fai.
- Gallwch ddweud rhywbeth o gymorth fel:
  - "Rwy'n falch i chi ddweud wrtha i"
  - "Nid eich bai chi yw hyn"
  - "Fe helpa i chi"
- Byddwch yn ymwybodol y gallai'r plentyn neu'r person ifanc fod wedi ei fygwth.
- Rhowch wybod i'r plentyn neu'r person ifanc beth fyddwch chi'n ei wneud nesaf ac y byddwch chi'n rhoi gwybod iddo/iddi beth fydd yn digwydd.
- Gwnewch nodiadau cyn gynted â phosibl, ac ysgrifennu yr union beth a ddywedwyd a phryd cafodd ei ddweud gan gynnwys manylion yr hyn a ddywedsoch chi wrth ymateb.
- Gwnewch gofnod o ddyddiadau ac amserau'r digwyddiadau hyn a chadwch y cofnodion mewn llawysgrifen, hyd yn oed os cânt eu teipio wedyn.

PEIDIWCH Â:

- Cynhyrfu.
- Dweud pethau fel:
  - "Pam na ddywedsoch chi wrth rywun o'r blaen?"
  - "Alla i ddim credu'r peth"
  - "Ydych chi'n siwr fod hyn yn wir?"
  - "Dwi'n synnu – peidiwch â dweud wrth unrhyw un arall"
- Gwneud i'r plentyn neu berson ifanc ail-ddweud yr hanes yn ddiangen.
- Gofyn am y manylion na cheisio ymchwilio.
- Ceisio ymdrin â'r broblem yn uniongyrchol.
- Cysylltu â'r person sy'n cael eu gyhuddo yn uniongyrchol.

I'ch helpu chi, gweler y siart rediad.

TROSEDDWYR RHYW YNG NGHYMUNED YR EGLWYS

Mae gan yr Eglwys ddyletswydd bwysig o ofal dros ddiogelwch bob plentyn. Ni ellir caniatáu i unrhyw droseddwr rhyw hysbys weithio gyda phlant yn yr Eglwys yng Nghymru. Mae gan yr Eglwys hefyd ddyletswydd i groesawu pawb i'r gymuned, gan gynnwys cyn-droseddwyr sydd efallai heb deulu, llety sefydlog neu waith.

Caiff cymuned yr Eglwys wybod am unrhyw droseddwr rhyw hysbys a fydd yn dod i fyw yn yr ardal. Mae gan yr Eglwys ran hanfodol i'w chwarae, mewn partneriaeth gyda'r heddlu, y gwasanaeth prawf ac asiantaethau statudol eraill, yn y gwaith hollbwysig o fonitro a chefnogi troseddwyr rhyw hysbys.

Pan fydd troseddwr rhyw hysbys yn ceisio ymuno ag Eglwys, mae'n rhaid ceisio cael cyfarwyddyd a chyngor oddi wrth yr asiantaethau statudol gyda'r nod o wneud popeth posibl i warchod plant yn ein cymuned, a'u cadw'n ddiogel rhag niwed.

Mae'n rhaid i chi ddilyn cyngor a chyfarwyddyd yr asiantaethau statudol. Byddwch yn barod:

- gynnal trafodaeth agored a gonest gyda'r unigolyn.
- sefydlu ffiniau eglur.
- gadw cysylltiadau agos gyda'r asiantaethau statudol a Swyddog Amddiffyn Plant yr Esgobaeth.
- sefydlu cytundeb neu gontract ffurfiol gyda'r unigolyn.
- orfodi'r cytundeb.
- bennu person arall o fewn cymuned yr Eglwys i weithredu fel "gofalydd" i'r unigolyn.
- roi gwybod i'r asiantaethau statudol, Swyddog Amddiffyn Plant yr Esgobaeth ac eglwysi eraill pan fydd cytundeb yn torri i lawr.

Mae siart rediad sy'n disgrifio'r camau gwahanol er mwyn ymdrin â throseddwyr rhyw hysbys yn yr Eglwys yn amgaeëdig. Gellir cael help a chymorth gan Swyddog Amddiffyn Plant eich Esgobaeth.

HYGLUDEDD DATGELIAD

Fel rhan o'r gweithdrefnau dewis ac archwilio mae'n rhaid i'r holl weithwyr cyflogedig a gwirfoddol fynd trwy broses o archwiliad gan y Swyddfa Cofnodion Troseddol.

Os bydd gweithiwr cyflogedig neu wirfoddol eisoes wedi bod trwy broses datgeliad gan y Swyddfa Cofnodion Troseddol gyda Chorff Cofrestredig arall gellir derbyn hyn os yw:

1. O fewn tri mis o ddyddiad ei gyhoeddi.

2. Yn Ddatgeliad Uwch neu Safonol.

3. Ni ddylai'r geiriau "Dim Cais" fod ym mlychau naill ai'r Adran Addysg a Sgiliau na'r Adran Iechyd ar y Datgeliad. Mae hyn yn dangos nad yw'r unigolyn wedi ei archwilio yn arbennig ar gyfer gweithio gyda phlant.

4. Rhaid i'r gweithiwr cyflogedig neu wirfoddol gwblhau'r ffurflen ddatgan caniatâd sydd ynghlwm.

5. Rhaid i'r Periglor gwblhau'r ffurflen Derbyn Datgeliad ac archwilio dogfennau adnabyddiaeth.

6. Rhaid dychwelyd y ddwy ffurflen at y Gweinyddydd Amddiffyn Plant, Glenda Edwards, yn 39 Heol y Gadeirlan, Caerdydd CF11 9XF.

7. Bydd y Gweinyddydd Amddiffyn Plant yn archwilio dilysrwydd y datgeliad gyda'r Corff Cofrestredig a nodir gan y gweithiwr cyflogedig neu wirfoddol, e.e. y Scowtiaid.

8. Ar ôl i'r archwiliadau gael eu cwblhau, bydd y Gweinyddydd Amddiffyn Plant yn cadarnhau a yw'r datgeliad yn un sy'n caniatáu i'r gweithiwr cyflogedig neu wirfoddol gael ei benodi i weithio gyda phlant.

Ffurflen Derbyn Datgeliad

Enw'r Plwyf:

Swydd y mae'r Cais amdani:

D.S: Er mwyn archwilio dilysrwydd y Datgeliad bydd yr Eglwys yng Nghymru yn cysylltu â'r Corff Cofrestredig a enwir isod. Dylech wneud yn siwr fod yr ymgeisydd wedi arwyddo adran ganiatâd y ffurflen hon.

Nid yw'r Eglwys yng Nghymru yn gallu derbyn y Datgeliad os bydd blychau'r Adran Addysg a Sgiliau neu'r Adran Iechyd yn nodi "Dim Cais". Mae hyn yn dangos nad yw'r unigolyn wedi ei archwilio'n arbennig i weithio gyda phlant.

Cyfenw:	Teitl:
Enwau Bedydd llawn:	
Dyddiad Geni:	
Unrhyw Gyfenw arall a ddefnyddir:	
Unrhyw enw Bedydd arall a ddefnyddir:	

Cyfeiriad Llawn gan gynnwys y Côd Post:

Dylech gwblhau dwy ochr y ffurflen hon.

Cofiwch fod yr HOLL wybodaeth yn y Datgeliad yn GYFRINACHOL

Manylion i'w codi o'r Datgeliad

Corff Cofrestredig:

Enw'r Cyd-arwyddwr:

Rhif y Datgeliad: Swydd y gwnaed Cais amdani:

Lefel y Datgeliad: Uwch / Safonol (**NID yw Datgeliad Sylfaenol yn dderbyniol**)

Dyddiad cyhoeddi'r Datgeliad:

Dim ond Datgeliadau sy'n llai na thri mis oed gaiff eu derbyn.

A oedd unrhyw gollfarnau wedi eu cofnodi? Oedd/Nac oedd
Os oedd bydd yn rhaid i'r unigolyn fynd trwy system Ddatgelu yr Eglwys yng Nghymru.

Nid yw'r Eglwys yng Nghymru yn gallu derbyn y Datgeliad os bydd bly-chau'r Adran Addysg a Sgiliau neu'r Adran Iechyd yn nodi "Dim Cais". Mae hyn yn dangos nad yw'r unigolyn wedi ei archwilio'n arbennig i weithio gyda phlant.

Tystiolaeth o Adnabyddiaeth

NID yw golwg ar Ddatgeliad yn dystiolaeth o adnabyddiaeth. Eitemau sy'n dderbyniol i'w harchwilio: o leiaf un o'r canlynol – pasport, trwydded yrru, tystysgrif geni. Ynghyd â bil cyfleustod neu gyfriflen ddiweddar sy'n dangos enw a chyfeiriad cyfredol yr unigolyn.

Eitemau a Archwiliwyd:

Enw'r Clerigwr sy'n archwilio'r Datgeliad (llythrennau bras):

Llofnod y Clerigwr:

Dyddiad:

Rhaid i'r ymgeisydd gwblhau'r datganiad caniatâd isod:

Rwyf i, ... (1),

ar ôl cael cynnig swydd fel ..... (2),

yn ..... (3),

gan ..... (4),

yn rhoi caniatâd i'r Eglwys yng Nghymru gadarnhau'r manylion perthnasol yn y Datgeliad a roddwyd i mi gan y Swyddfa Cofnodion Troseddol ar ..... (5),

cyfeirnod ..... (6),

gyda ..... (7),

yn ôl yr hyn fydd ei angen i gynorthwyo gydag asesu fy addasrwydd ar gyfer y swydd.

Arwyddwyd:

Dyddiedig:

Cyfarwyddiadau ar gyfer cwblhau'r ffurflen. Dylech nodi'r wybodaeth ganlynol:

1. enw'r ymgeisydd
2. swydd y mae'r cais amdani
3. enw'r plwyf
4. enw'r Periglor/clerigwr
5. dyddiad y Datgeliad
6. Rhif y Datgeliad
7. Enw'r Corff Cofrestredig ar y Datgeliad

Rhaid dychwelyd y ffurflen hon, ynghyd â'r ffurflen Derbyn Datgeliad, at:
Glenda Edwards yn 39 Heol y Gadeirlan, Caerdydd CF11 9XF